

ECO'R WYDDFA

Rhif 188

MAWRTH 1993

Pris 25c

Yn y rhifyn hwn . . .

Deio . . . tudalen 3

Chwilota . . . tudalen 4

O Siambr Selwyn . . . tudalen 6

Meddygfa Newydd Llanberis . . . tudalen 7

Y Gwalch . . . tudalen 8

Yn ogystal â newyddion holl
bentrefi'r fro a llawer mwy.

OEDDECH CHI YNO?



Rhai o'r 94 cyn-ddisgybl a ddaeth i'r ad-uniad diweddar.

Ad-uniad Cyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail 1965, '66 a '67

Wedi'r holl baratoi ar gyfer y cyfarfod, cyrhaeddodd noson yr ad-uniad ar Chwefror 6ed. Roedd 94 wedi archebu eu lle yn y noson a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, ond daeth dros gant ynghyd. Golygai hyn bod mwy na hanner y rhai a wahoddwyd yn bresennol. Roedd y cyn-ddisgyblion hyn wedi cychwyn ar eu blwyddyn gyntaf yn Ysgol Brynrefail yn 1966, 1967 neu 1968.

Roedd cryn nerfusrwydd i'w deimlo wrth i bobl ddechrau cyrraedd o un i un, a llawer yn craffu wrth geisio dyfalu pwy oedd pwy. Roedd yn amlwg bod rhai wedi heneiddio yn fwy na'i gilydd! Roedd pump wedi teithio o Forgannwg, un o Fryste, un o Lerpwl, un o Oldham ac un o Lundain. Roedd amryw wedi dod o Ddyfed, o Bowys ac o Glwyd, a llawer iawn o Wynedd gan gynnwys nifer helaeth sy'n dal i fyw yn nalgylch yr Ysgol.

Wrth groesawu pawb i'r noson, cyfeiriodd Gwyn Parri, a drefnodd y noson gyda Hywyn Williams a Reg Roberts, at rai a oedd wedi anfon ymddiheuriadau am fethu a bod yn bresennol. Tipyn yn bell oedd yr Almaen a Saudi Arabia iddynt fod wedi mentro'r siwrnai! Roedd yn drist clywed bod cymaint â chwech o'r cyn-ddisgyblion wedi marw.

Cafwyd bwffe a noson anffurfiol,

gan roi cyfle i bawb fwynhau sgwrsio a hel atgofion. Roedd rhai heb weld ei gilydd ers dros ugain mlynedd. Roedd cryn holi am hynt a helynt y blynyddoedd hynny. Roedd digon o athrawon ymhlith y cyn-ddisgyblion i gychwyn ysgol lewyrchus yn y fro, yn ogystal â thri phlismen, dau weinidog, nyrsus, seiri, adeiladwyr, ffermwyr (ac ambell i ŵr busnes cefnog!). Roedd digon o famau a thadau, ac ambell un hyd yn oed yn sôn am wyrion a wyresau!

Mr Dic Parry, sy'n dal i fod yn aelod o staff dysgu'r Ysgol, oedd yr unig un o athrawon y cyfnod a lwyddodd i fod yn yr ad-uniad. Roedd yn ddiddorol er hynny bod tri o'r cyn-ddisgyblion erbyn hyn yn athrawon yn yr Ysgol.

Ar ddechrau'r noson penderfynwyd mai ymhen deng mlynedd y byddai'r ad-uniad nesaf, ond fel yr ai'r noson rhagddi, clywyd

llawer yn dadlau dros ail ymgynnull ymhen pum mlynedd. Anfonwyd elw'r noson i Gymdeithas Rhieni-Athrawon Ysgol Brynrefail. Roedd yn noson dda dros ben.



Euros Wyn Evans.

Roedd Euros Wyn Evans, aelod o Seindorf Arian Deiniolen ar ben ei

APÊL MYNWENT LLANDDEINIOLEN

Yn ddiweddar fe fu cryn boendod ynglŷn â chyflwr y fynwent. Mae'r tyfiant trwchus o wair, chwyn a mieri yn creu amgylchfyd flêr ac yn amlwg fe fydd yn rhaid ymateb i'r broblem gynyddol hon.

Fe drefnwyd cyfarfod cyhoeddus pryd y llwyddwyd i wyntyllu nifer o bosibiliadau gan sefydlu blaenoriaethau.

Ni ellir symud y cerrig beddau nag ymylon beddau er mwyn hwyluso symudiad unrhyw beiriannau; annodd iawn fydd denu unrhyw grantiau tuag at y gost; am wahanol resymau ni ellir defnyddio chwynladdwr, llenni plastig na cherrig mân.

Teimlwyd yn y cyfarfod mai'r unig ateb oedd gosod y gwaith yn nwylo contractwyr profiadol. Oherwydd y gwaith angenrheidiol a'r angen i drin y tir yn rheolaidd yn ystod tymor tyfiant golyga hyn cryn dipyn o gost i'r eglwys. Ni all mynychwyr Eglwys Sant Deiniol ysgwyddo'r fath faich ariannol. Eisoes mae nifer o gyfeillion yr eglwys wedi cyfrannu ond fe fydd angen llawer iawn mwy o arian.

Mae gan yr eglwys lawer o garedigion, o bob enwad ac o tu allan i'r plwyf, ac fe wneir apêl felly at unrhyw unigolyn neu gymdeithas a hoffai gyfrannu. Gellir cyfrannu mewn un taliad neu gyfraniad blynyddol tros gyfnod o amser.

Mae'n fwriad i ddechrau'r gwaith cyn y Pasg.

Lle o gariad ac atgofion yw'r fynwent a man, o reidrwydd, sy'n mynnu parch. Os hoffech gyfrannu gellir anfon eich rhodd at Drysorydd yr Apêl:

**Mrs E. W. Morris, Y Fachell,
Llanddeiniolen, Caernarfon.**

ddigon wedi pencampwriaethau Unawdau, Deuawdau a Phedwarawdau Pres Gogledd Cymru, a gynhaliwyd ym Mangor ar Chwefror 13. Bu'n fuddugol ar yr Unawd, daeth yn ail ar yr 'Aire Varie' o 16-18 oed ac fel pe bai hynny ddim yn ddigon fe ymunodd ag Eilir Williams i gipio'r 3ydd wobwr ar y deuaud. Braf unwaith eto yw cael llongyfarch aelod o un o fandiau'r fro ac ar yr un pryd ddiolch i'r rhai sy'n gwneud cymaint i hybu a chynnal y rhan bwysig yma o ddiwylliant ein hardal.

YDYCH CHI YN HOFFI BARGEN?

Trowch i dudalen 15
am gynnig na ellwch ei wrthod

ECO'R WYDDFA

RHIF 188
MAWRTH 1993

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Clbyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(670115)

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWYR

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (674669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stad Tŷ
Hen, Waunfawr (650599)

TREFNYDD GWERTHIAN

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr
Orsaf, Llanrug (675510)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(0248 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (673536)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwynedd ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (676733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, EBRILL 1

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN

MAWRTH 22

os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU A	RHIF FFÔN
EBRILL	EBRILL 1	CAEATHRO	Mrs Beryl Roberts	673536
MAI	EBRILL 29	DEINIOLEN	Mr W. O. Williams	871259
MEHEFIN	MAI 27	BRYNREFAIL	Miss Lowri P. Roberts	870580
GORFFENNAF	GORFFENNAF 1	BETHEL	Mr Geraint Elis	(0248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 9	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 30	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 28	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
RHAGFYR	RHAGFYR 2	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034

Dymunaf ddiolch i'r cysylltwyr am eu cydweithrediad a'u parodrwydd i fy nghynorthwyo i drefnu'r rota am y flwyddyn.

Llythyrau

Bedw Gwynion
Ffordd Glanffynnon
Llanrug

Annwyl Ddarllenwyr Eco'r Wyddfa,
Tybed faint ohonoch, ddarllenwyr
Eco'r Wyddfa, sydd wedi cadw pob
rhifyn ers y dechrau yn Chwefror
1976? Os ydych, hoffwn glywed
oddi wrthyich.

Efallai fod gan eraill ohonoch
gasgliad sydd bron yn gyflawn, ond
gydag ambell un ar goll yma a thraw.
Mae gan Eco'r Wyddfa nifer
cyfyngedig o hen rifynnau a all
lenwi'r bylchau yn eich casgliad.
Cysylltwch â mi i gael y manylion.

Rwyf i fy hun yn chwilio am gopïau
o rifynnau 151 (Hydref 1989), 152
(Tachwedd 1989) a 169 (Mai 1991).
Oes rhywun allan fan'na a all helpu?

Yn wir os ydych am glirio rhywfaint
ar y garej, peidiwch â thafu hen
gopïau o'r Eco heb eu cynnig yn
gyntaf i mi. Mae gan Bwyllgor Llywio
Eco'r Wyddfa ddefnydd mewn golwg
ar eu cyfer a all fod o help i goffrau'r
papur. Datgelir mwy yn y man.

Peidiwch ag oedi. Cysylltwch ar
unwaith!

Yn ddisgwyllgar,
R. JOHN ROBERTS
Cadeirydd Pwyllgor Llywio
Eco'r Wyddfa
Ffôn: (0286) 675605

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

**Aled
Jones**

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

**4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047**

Symud y Gofeb

Allt Riwith,
Llanrug

Annwyl Olygydd,

Carwn gyhoeddi'r ffaith i mi dderbyn
llythyr oddi wrth y Cyfarwyddwr
Addysg yn datgan y ffaith fod bwriad
gyda hyn i symud cofeb rhyfel fy
niweddar gyfeillion, o'i safle allanol
bresennol, yn ei hól i'w iawn le ar fur
mewn yn ysgol newydd
Penisa'rwaun.

Dymunaf hefyd ddatgan fy
niolchgarwch a'm pleser; y rhai sydd
yn gydradd â theimladau fy
nghefnogwyr.

Yn ffyddlon,
JOHN E. WILLIAMS

CYNGERDD GŴYL DDEWI

Neuadd Pritchard Jones
Bangor

Nos Wener, 5 Mawrth
1993 am 7.30

Côr Meibion y Traeth
Elinor Bennett, Trebor Evans
Ysgol Glanaethwy
Dei Tomos

Tocynnau ar gael - (0248)
382004/5 neu wrth y drws
Pris £3 Plant a Phensiynwyr £2
Yr elw at Glefyd Parkinson a
Chronfa Ysgoloriaeth yr Athro
Bedwyr Lewis Jones
Noddir gan Banc Midaland CCC



DARPAR BENSIYNWYR

(h.y. pawb rhwng 18 a 65)

NODER!

**MAE GENNYM GYNNIG ARBENNIG AR BENSIYNAU
SY'N AGORED TAN EBRILL 30, 1993**

Am fwy o fanylion ffoniwch Caernarfon (0286)

677787 neu lenwi'r ffurflen isod a'i hanfon at:

**Cwmni Tarian Cyf., RHADBOST,
6 Stryd Bangor, Caernarfon LL55 1BR**
(nid oes angen stamp)

Hoffwn gael mwy o fanylion am y cynnig arbennig ar
bensiyndau.

Enw:

Cyfeiriad:

.....

.....

.....

Arwyddwyd:

Mae Cwmni Tarian yn gynrychiolwyr o Grwp Marchnata Friends
Provident (y perthyn ei aelodau i Lautro a/neu Imro) ar gyfer
gwerthu yn unig yswiriant bywyd, pensiwn a chynnyrch unedau
ymddiriedolaeth sy'n dwyn enw Friends Provident. Awdurdodedig
hefyd i werthu yswiriant iechyd.

Os nad ydych eisiau torri eich rhifyn o Eco Wyddfa mae
croeso i chi ysgrifennu atom yn hytrach na llenwi'r uchod.

HEIDIO HEIBIO HANOFR

gan DEIO

Cystal cyfaddef reit ar y dechrau fel hyn nad oes gan hyn o nodiadau goblyn o ddim i'w wneud â Hanofer — naill ai y ddinas Almaenig na'r llygriad o gyfieithiad o 'Benmaenmawr' chwedl Wali Tomos. Pam felly defnyddio'r enw, meddech? Ei weld yn llithro'n addas gyda gweddill y teitl yr oeddwn a meddwl y buasai'n llunio pennawd trawiadol i dynnu'ch sylw ac os y bu ichwi ddarllen mor belled, yna, dywedwn i mi lwyddo!

Ond, hwyrach fod mwy i'r gair na hynny hefyd. Ystyriwch leoliad y ddinas yn yr hyn a elwid yn Orllewin yr Almaen rhyw gwa da'r blynedd yn ôl, tua 250 km fel yr eheda'r frân bondigrybwyll honno yr ochr Gymreig, fel petae, o Berlin. Chwalwyd y mur a dylifodd y bobloedd o'r naill ochr i'r llall, yn enwedig felly o'r dwyrain i'r gorllewin a chymryd fod y wasg Brydeinig i'w choelio ac mae cwestiwn pur fawr wrth ymyl hynny'n aml y dyddiau yma. Wedyn, agorwyd giatiau marchnata y Gymuned Ewropeaidd ar drosiad calan ryw ddeufis yn ôl a dyna'r miloedd yn cael rhyddid i 'heidio heibio Hanofer' y naill ffordd a'r llall. Ond a ddigwyddodd hynny? Nid oes gennyf ddigon o wybodaeth i ddadlau ac i fynegi barn heblaw nodi, yn bersonol, na fu ymestyn ffiniau marchnadoedd wneud unrhyw wahaniaeth i'm sefyllfa bersonol i hyd y gwelaf.

Parhau i brynu llai a llai mae'r bunt wrth iddi neidio allan o'n pocedi neu'n pyrsiau a gwelir olion y dirwasgiad ar bob llaw. A oes

gennyf fab neu ferch sy'n derbyn gwersi offerynnol yn yr ysgol leol? Os yw'ch ateb yn gadarnhaol, yna, mae'n bur debygol y gwelir cryn newid yn y drefn o Ebrill nesaf ymlaen gyda naill ai llai o wersi'n cael eu cynnig neu ynteu yr un nifer ond am bris llawer uwch â'r cais am gyfraniad uwch fyth gan rieni. Y Llywodraeth wedyn yn deddfu y dylid cynnal raffl fawr fisol gan obeithio codi digon o arian i dalu am sefydliadau diwylliannol ein gwlad. Dyna'r sefyllfa drist yr ydym ynddi — ein cân, ein llafaredd, ein gweithgareddau hamdden i gyd yn ddibynnol ar awydd dyn i gystadlu mewn cystadleuaeth hynod o unochrog yn y gobaith o fod yr un allan o filiynau unwaith bob mis i ennill swm mawr o arian. Ie, cyfoeth materol yn tra-arglwyddiaethu ar gyfoeth meddyliol! I'm barn i rydym ar fin bod yn gymdeithas ddau

ddosbarth ym Mhrydain gyda criw bychan o bobl ariangar yn llwyr reoli gweithgareddau'r gweddill ohonom na all fforddio talu hyd yn oed am nifer o elfennau a ddylai fod yn hawl sylfaenol i bob unigolyn.

Teg fuasai dweud erbyn hyn hwyrach fy mod wedi tarannu digon! Mae yna o hyd nifer o bethau sy'n llooni calon rhywun o ddydd i ddydd. Yn aml iawn, clywir eitem ar un o raglenni Dei Tom neu Hywel Gwynfryn neu'r Stondin sydd yn cynhesu'r gwaed. Rhyw blentyn yma'n dweud ei farn yn ddiflwyn ar dafod ac oedolyn acw'n mynegi'i deimladau mewn modd ffraeth a

syml ond yn hynod o effeithiol. Ie, 'er gwaethaf pab a phopeth — rydym yma o hyd' yw hi a diolch am hynny! Boed i'r dirwasgiad, polisïau'r naill Lywodraeth ar ôl y llall wneud ei gwaethaf, bydd i bobl gyffredin Cymru barhau i ddangos i weddill y byd fod yma ysbryd o gyd-ddeall a chyd-weithio'n bodoli rhyngom pan mae pethau'n anodd.

Tafiwch eich meddyliau'n ôl i Barc yr Arfau ar brynhawn cyntaf Chwefror a dyna chwi un enghraifft glasurol. Boed i ysbryd o'r fath fod gyda ni tros y blynyddoedd nesaf yma!

Hwyl fawr am y tro!



CYNGOR BWRDEISDREF

ARFON

BOROUGH COUNCIL

Penrallt, Caernarfon
Gwynedd LL55 1BN
Ffôn: (0286) 673113
Ffacs: (0286) 677136

TABL AMSER DOSBARTHU TOCYNNAU BWS LLANBERIS A'R CYLCH

Dydd Iau, 11 Mawrth

Dinorwig	Y Ganolfan	9.30 – 10.00
Deiniolen	Y Ganolfan Ysgol	
	Gwaengynfi	10.45 – 12.45
Cwm y Glo	Ysgol y Pentref	2.00 – 2.30
Penisarwaun	Neuadd Eglwys	
	Santes Helen	2.45 – 3.30
Brynrefail	Festri'r Capel	3.45 – 4.15

Dydd Gwener, 12 Mawrth

Nant Peris	Festri'r Capel	9.45 – 10.15
Llanrug	Festri'r	
	Capel Mawr	10.30 – 12.30
Llanberis	Angorfa,	
	Stryd Y Ffynnon	2.00 – 4.00

Codi'r tâl o £3.00 am bob tocyn a werthir

ANTUR PADARN CYNLLUNIO AR GYFER Y DYFODOL

Mewn cyfarfod o Antur Padarn, a gynhaliwyd yn yr Institiwt, Llanrug, ar nos Fercher, 10 Chwefror, bu'r aelodau yn trafod cynnwys copi drafft o Strategaeth Tymor Byr a Hir yr Antur. Mawr hyderir y bydd y drafft terfynol ar gael ar gyfer ei gyhoeddi o fewn y mis nesaf. Y bwriad wedyn fydd cynnal cyfarfod rhwng Antur Padarn a chynrychiolwyr cyrff fel Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Dosbarth Arfon, ac ati, i drafod cynnwys y Strategaeth ac yna cytuno sut y dylid mynd ati i weithredu yr argymhellion a wneir. Felly fe ddylai y mis neu ddau nesaf fod yn gyfnod tyngedfennol o safbwynt gweld strategaeth gwirioneddol ar gael ar gyfer creu hinsawdd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ffafriol i barhâd a ffyniant cymunedau y Dyffryn.

Yn yr un cyfarfod llongyfarchwyd y Swyddog Datblygu ar ei waith rhagorol yn trefnu 'Diwrnod Agored' llwyddiannus iawn yn Llanberis ar yr 20fed o Ionawr. Adroddodd y Swyddog Datblygu bod cynlluniau cyffrous eraill ar y gweill a gobeithir datgelu mwy am y rhain yn ystod y misoedd nesaf.

Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Antur ar nos Fercher, Mawrth 10fed, yn Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis, am 7 o'r gloch. Fel arfer bydd croeso i aelodau newydd ddod i'r cyfarfod i gefnogi gwaith yr Antur.

CLWB ERYRI

Nos Wener, 5 Chwefror, treuliwyd noson ddiffr yn gwrando ar y Dr Raymond Williams yn sôn am y defnydd a wneir o dechnoleg fodern y cyfrifiadur ym myd meddygaeth. Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dr Dan Hughes ac wedi trafodaeth fywiog a deallus, diolchwyd iddo gan Mr Meurig Evans.

Bydd cyfarfod nesaf y Clwb ar Fawrth 5, am 7.30 yng Ngwesty'r Gwynedd, yn ôl yr arfer, pryd y disgwylir mwynhau'r Cinio Gŵyl Ddewi yng nghwmni y siaradwr gwadd, y Parchg Emlyn Richards, Cemaes, Môn. Hyderir y bydd cefnogaeth deilwng gan yr aelodau a'u cymheiriaid.

Fel ôl-nodyn, deallir fod un o aelodau'r Clwb, sef y Dr Eurwyn Lloyd Evans, wedi cael cryn ddychafiad, a dymunir y gorau iddo yn ei waith sialensgar a newydd yng Nghyngor Sir Gwynedd.

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



dalier sylw

yn cyflwyno

wyneb yn wyneb

gan michael povey

gyda olwen rees · dafydd dafis · danny grehan
cerddor/cyfansoddur iolo jones

"...y fi sy'n gorfod wynebu nhw, y fi sy'n gorfod
wynebu pobl..."

Mae peidio a rhoi rheswm i bobl
siarad yn burysig i Laura.

Mae peidio a rhoi rheswm i

Laura boeni yn
burysig i
Tom.

Mae'r
gwirionedd
yn burysig i
Steff-
weithiau!

THEATR GWYNEDD, BANGOR

Nos Iau – Nos Sadwrn,

1 – 3 Ebrill am 7.30 yh

Swyddfa Docynnau: (0248) 351708

Pris Tocynnau: £5.30 / £4.50 / £3.70

(gostyngiadau ar gael)

mae dalier sylw yn elusen gofrestredig

CHWILOTA MWY AM FFYNHONNAU



Roedd yr ymateb i'r golofn y mis diwethaf yn arbennig o dda. Trueni na fyddai felly bob mis! Mae'n amlwg fod diddordeb byw gan lawer yn hanes a chwedloniaeth ein bro. Diolch o galon i bawb am ymateb — yn ysgrifenedig ac ar y ffôn. Fe ddechreuwn gyda'r ffynhonnau:

Ffynnon Chwerthin . . .

Os cofiwch, roedd peth penbleth ynglŷn ag union leoliad y ffynnon hon; rhai'n honni ei bod yn Llanberis, ac eraill yn bendant ei bod tu cefn i gapel Eban yn Neiniolen. Yn anffodus, mae'r dryswch yn cynyddu! Derbyniais air gan Mrs Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, Deiniolen, yn dweud na chlywodd hi erioed am Ffynnon Chwerthin, ac nad oedd yn tybio mai'r un yng nghefn Capel Eban ydyw. Roedd yno ffynnon, meddai, tu cefn i'r capel — 'ar gaeau Ty'n Weirglodd, ond Ffynnon Abram oedd honno'n cael ei galw gan drigolion Porth y Gogledd. Yno y byddem yn cael dŵr os byddai dŵr y feis wedi peidio. Abram oedd enw'r gŵr oedd yn byw yn Nhy'n y Weirglodd.' Dyna ychwanegu at y dirgelwch felly. Ai Ffynnon Chwerthin oedd yr hen enw ar Ffynnon Abram, ynteu a oedd Ffynnon Chwerthin yn rhywle arall?

Ffynnon Fedydd a Chefn Beddau . . .

Gan Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol, Llanrug, y daeth llythyr cynhwysfawr mewn ymateb i'r ffynnon hon. Mae'n cadarnhau fod esgyrn dynol wedi eu darganfod ar dir yr Aden. Dyma sydd ganddo i'w ddweud: 'Bu fy nhad yn gweini yn 'Radan, a soniai am ddau gae yno — Cefn Bedda Ucha a Chefn Bedda Isa. Daeth fy nhad ar draws esgyrn dynol niferoedd o weithiau wrth aredig y ddau gae yma: roedd yn beth hollol gyffredin. Bu Dic, cyfyrder i mi o'r Waunfawr, yn gweini yn 'Radan yn ystod y tridegau cynnar. Gwyddai am yr esgyrn a ddoi i'r wyneb wrth aredig y ddau gae yma.' Awgryma Mr Williams mai yn y caeau hyn yr oedd mynwent Segontium, 'gan fod ffordd yn rhedeg ar hyd y grib o Rosbodrual i Ben Dinas'. Ond pam tybed yr oedd y Rhufeiniaid yn mynd i gymaint trafferth â chario eu meirw yr holl ffordd o Gaer Segontium i'r man diarffordd hwn?

Mae Mr Williams hefyd yn rhoi gwybodaeth am deuluoedd a fu'n byw yn 'Radan ac yn Dôl Ddeuto. Roedd dwy Aden ar un cyfnod — Aden fach ac Aden fawr. Teulu o Lanffinan, Môn, oedd yn ffermio 'Radan Fawr ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, ond bu'r gŵr farw'n fuan ar ôl cyrraedd yno. Mae'n nodi hefyd fod dau frawd, Ifan Morris a Richard Jones, wedi bod yno'n ffermio, ac mai gweddwr'r olaf, Catherine, oedd yn dal y tir yn 1872.

Ynglŷn â'r Ddôl — ar y terfyn rhwng y fferm hon a thir yr Aden roedd y ffynnon, a honno wedi ei gorchuddio â llechen. Un teulu fu'n byw yn y Ddôl am gyfnod hir, gan ddechrau gyda John William Parry yn gynnar yn y ganrif ddiwethaf. Yn dilyn ei farwolaeth, priododd ei weddw â Robert Ifan, ac yn eu dilyn hwythau roedd Siân (merch Robert

Ifan) a briododd Thomas William. Dilynwyd hwythau gan Lewis Thomas y mab, ac yn 1870 daeth y fferm i feddiant Lewis William, nai Lewis Thomas. Mae cyfeiriad at hwn gan W. J. Gruffydd. Lewis William oedd enw'r mab hefyd, a brawd iddo, William, oedd tenant olaf Pen yr Orsedd, sydd bellach yn furddun rhwng Pont Charlie a fferm Llwyn Bedw.

Daeth galwad ffôn o fewn dim i gyhoeddi'r 'Eco' ddiwethaf ynglŷn â Cherrig Padell y Brain. Diolch i Mr a Mrs T. Griffith, Bryn Celyn, Llanrug, am gyfarwyddiadau ynglŷn â sut i gyrraedd y cerrig hyn nepell oddi wrth Bendas Eithin, Waunfawr. Cefais yr un wybodaeth hefyd gan Mr Emyr Owen o'r Waunfawr. Mae traddodiad yn dweud mai dyma un o hoff gyrchfannau'r Tylwyth Teg. Oes gan rywun chwedlau am Dylwyth Teg yn y parthau hyn?

Y llynedd bûm yn sôn am gerrig arbennig yn marcio'r terfyn rhwng plwyfi Llanddeiniolen a Llandegai. Derbyniais gopi o fap yn nodi rhai o'r cerrig gan Mr Dafydd Orwig, Bethesda. Mae llynnoedd Marchlyn mawr a bach wedi eu dangos arno, a'r llinell derfyn yn rhedeg o Farchlyn Mawr i gyfarfod â'r afon sy'n llifo o Farchlyn Bach. Ychydig islaw'r Marchlyn Bach mae'r enwau hyn wedi eu nodi: *Carreg gwastad, Rhos y marchlyn, carreg corn gwddw ceffyl a Stone with Llanddeiniolen & Llandegai cut in it.*

Hanes Teuluoedd . . .

O fewn ychydig ddyddiau i'w gilydd bûm yn trafod tŷn yn Llanrug oedd â chysylltiadau â dau deulu gwahanol: Bryn Hafod — ar derfyn caeau Ysgol Brynrefail, ble mae'r Lôn Groes yn cyfarfod â Ffordd y Crawia. Iwan Roberts, un o'r golygyddion, sy'n chwilio am hanes Maurice Griffith neu Morris Evans a oedd yn byw yno tua 1830 gyda'i wraig, Mary. Bu'n byw cyn hynny yn Nhy'n y Coed a'r Lleiniau. Bedyddiwyd ei blant yn Eglwys Llanrug, ar wahân i un ferch, a fedyddiwyd yng Nghapel Llanrug yn 1833. Pam hynny tybed? Yn ddiweddarach roedd teulu Parry yn byw yno, ac yn y teulu hwn y mae diddordeb Mr Edgar Parry, Caernarfon. Roedd mab Bryn Hafod, Thomas Parry, yn fyfyrwr yn y Bala, a bu farw yn ŵr ifanc 27 oed yn 1843 — 'got liver complaint from hard study' yn ôl Cofrestr Claddu Plwyf Llanrug.

Daeth cais hefyd gan Mr Huw Parry Jones, Dolgarrog, ynglŷn â gwraig o'r enw Elizabeth (Lizzie) Parry o 9 Victoria Terrace, Llanberis, a fu farw ym mis Tachwedd 1914. Dywed y bu'n rhaid torri ei choes i ffwrdd yn ystod ei gwaelodd, ac mai yn y tŷ y gwnaethpwyd hynny. Ai cyfeiriad sydd yma at orchestwaith y Dr Mills Roberts?

Cymdeithas Hanes Lleol . . .

Ddydd Sadwrn, Chwefror 20fed, bûm mewn Ysgol Undydd i Diwtoriaid Dosbarthiadau Hanes Lleol yn Ngholeg Harlech, wedi ei threfnu gan Gymdeithas Addysg y Gweithwyr (W.E.A.). Y newyddion da i'r rhai sy'n ymddiddori mewn hanes lleol yw fod Canolfan Hanes Lleol i'w sefydlu yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor. Bydd mwy o wybodaeth i ddilyn.

Mae hefyd yn fwriad gan Gymdeithas Addysg y Gweithwyr i hybu dosbarthiadau i wneud gwaith ymarferol ynglŷn â hanes lleol eu pentref neu eu bro. Yn yr un modd, byddai cyfle i Gymdeithasau Hanes Lleol wneud yr un gwaith. Os oes rhywrai â diddordeb mewn sefydlu dosbarth o'r fath, cysylltwch â'r Trefnydd yn 33 Ffordd y Coleg,

Bangor.

A thra'n sôn am Gymdeithasau Hanes Lleol, onid yw'n bryd ail-afael yn un Bro'r Eco?

Anfonwch air neu cysylltwch ar y ffôn â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (0286) 673515.

CWMNI BARA CAWS

yn cyflwyno

CHWILEN YN FY MHEN

yn Neuadd Ysgol Brynrefail
nos Fercher, Mawrth 17
am 7.30 o'r gloch.

Mynediad:

Oedolion £3; Plant £1.50
Tocynnau gan aelodau'r pwyllgor
neu ffoniwch 650200 neu 674878
neu 870237

Trefnir gan gangen Plaid Cymru Llanrug

**GERAINT
OWEN**

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

**Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR**

Ffôn: Waunfawr
650552

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG

Ffôn: 677482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr ffenestri
Drysau, Grisïau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

CAPEL ENGEDI, CAERNARFON
Nos Fercher, 7 Ebrill 1993 am 7.30 o'r gloch

Y CROESHOELIAD

JOHN STAINER

(Cyfaddasiad Cymraeg gan Dafydd Wyn Jones, Aberteifi)
gyda

JOHN EIFION (Tenor) IWAN PARRY (Bariton)
Côr Unedig

BRO DYFNAN a CHANTORION ELIDIR
PHILIP BARNETT (Organ)

Arweinydd: ROBIN JONES, Bethel
Cyflwynydd: R ALUN EVANS, BBC

Pris Rhaglen: £3

Rhaglenni ar gael o Siop y Pentan, C'fon a Siop Pendref, Bangor
Yr elw tuag at Gronfa Haematoleg a Chymorth Cancr Gwynedd


AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD
HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM

FFENESTRI CELTAIDD
(CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL

NABC

- ★ Gwydro Dwbl a Sengl
- ★ Gwaith Domestig a Chontract
- ★ Gwarant 10 mlynedd
- ★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim



CYMHARWCH EIN PRISIAU
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160

Un funud fach . . .

PERFFEITHRWYDD

Dysgais drwy ddwy raglen deledu flynyddoedd yn ôl bod yna rywbeth cyfaredol mewn gweld arweinydd medrus yn arwain cerddorfa.

Cyn bod Torville a Dean wedi poblogeiddio'r darn 'Bollero' o waith y cyfansoddwr Ravell, cefais flas mawr ar raglen lle'r oedd yr arweinyddes Jane Glover yn dadansoddi'r darn gan egluro sut yn union yr oedd y gwahanol offerynnau yn adeiladu'r darn. Cefais gyfle neithiwr i ailfwynhau y rhaglen arall lle'r oedd Leonard Bernstein yn arwain recordiad o'i sioe 'West Side Story'. Mae'n debyg ei fod wedi dod mor agos at berffeithrwydd ag yr oedd modd, a doedd ryfedd hynny o gofio bod cantorion fel Kiri Te Kanawa a José Carreras yn rhan o'r cynhyrchiad.

Ond roedd Bernstein yn gwbl ddiardugredd os digwyddai'r peirianwyr neu'r cynhyrchwyr roi bys o'i le. Roedd y meistr Carreras yn gwingo dan ei lach pan fethai daro'r nodyn ar ei ben mewn ambell fan. A'r fath gyffro wrth wyllo dyn yn disgwyl ei dro i daro blaen ei fys mewn tamborin a rhoi'r ysgytwad lleiaf i'r maracas: gwaie hwnnw hefyd os nad oedd yn gwneud ei waith yn berffaith!

Mae Duw yn chwilio am berffeithrwydd ynom ni: ufudd-dom perffaith iddo Ef, a chariad perffaith at ein gilydd. Pa obaith sydd felly i rai sy'n bell o fod yn berffaith?

Ein gobaith ydi bod Duw yn drugarog. Mae'n dweud yn glir ei fod yn cosbi pechod, ond yn dweud hefyd ei fod yn barod i faddau'r pechod hwnnw. Mae wedi dangos ei drugaredd yn Iesu Grist, ei Fab. Mae esiampl a dysgeidiaeth Iesu Grist yn dangos beth yw'r safon perffaith a ddisgwylir. Ond nid dod i edliw ein methiant i gyrraedd safon a wnaeth yr Iesu. Nid dod i'n sathru a'n sarhau a wnaeth. Yn ei gariad a'i drugaredd mae Duw yn barod i gyfrif bod Iesu wedi cyrraedd y safon perffaith ar ein rhan ni, a'i fod wedi cymryd cosb ein methiant yn ein lle ar y groes. Ac yn ei drugaredd, mae'n addo'n cyfrif ni yn berffaith os credwn yn ei Fab.

JOHN PRITCHARD

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Alun Lloyd Jones, Carreg-y-frân ar ddathlu eu Priodas Aur.

Gwellhad buan: Dymunwn wellhad llwyr a buan i Miss Wright, Manchester House, ar ôl iddi dderbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Cydymdeimlad: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Tom Owen a'r teulu, 3 Maes Gerddi, yn eu profedigaeth lem o golli brawd, Mr Lloyd Owen, yn frawychus o sydyn.

Diolch i ddosbarthwyr: Dymunwn ddiolch i Nigel Orritt, Morannedd, am ddosbarthu'r Eco yn nosbarth Bryn ers blynyddoedd lawer, ac wrth ddiolch i Nigel dymunwn ddiolch i Maldwyn Hughes, 2 Bryn Gro am ymgymryd â'r gwaith. Diolch o galon i'r ddau.

Clwb Pobl y Cwm: Ein gŵr gwadd ar Chwefror 4ydd oedd Mr Hugh Richard Jones, Llanberis, ac fel arfer fe dreuliodd prawn difyr yn ei gwmni. Mae gan Mr Jones lyfr gwerthfawr dros ben o ddywediadau a digwyddiadau diddorol a phwysig wedi eu casglu a'r tasg ni oedd ceisio cofio ar ba achlysur eu dywedwyd a pha berson oedd ynglŷn â'r digwyddiad. Cafwyd tipyn o hwyl mewn llwyddiant ac mewn methiant! Diolchodd Mrs G. Chick i Mr Jones am bawn difyr dros ben. Rhoddwyd y baned a'r raffl gan Mrs M. Rowlands a Miss Megan Davies ac fe enillwyd y raffl gan Mr Llew Hughes.

Ar 18 Chwefror cip i'r gorffennol a gawsom gan Mrs E. M. Jones a Mrs Glenys Pritchard gan iddynt ddod a nifer fawr o hen luniau unigolion, teuluoedd, digwyddiadau, tai, siopau, addoldai, ysgol Cwm-y-glo, a hynny o ddechrau'r ganrif hyd y cyfnod diweddar. Fe gofiam rai pethau ond i rai ohonoch sy'n 'bobol ddŵad' roedd yn ddiddorol gweld amryw o bethau y clywsom amdanynt o dro i dro. Diolchwyd i'r ddwy gan y llywydd. Rhoddwyd y baned a'r raffl gan Mrs Jones a Mrs Pritchard ac enillydd y raffl oedd Mrs M. Rowlands.

Diolch: Dymuna Mrs Katie Watkins, Dolwen, ddiolch yn gynnes iawn i

bawb o'i ffrindiau a'i chydabod am eu caredigrwydd yn ystod ei gwaeledd. Diolch am y llu cardiau a'r blodau hardd a dderbyniodd gan ei chyfeillion, gan staff a disgyblion Ysgol Cwm-y-glo a Chlwb Pobl y Cwm. Gwerthfawrogwyd pob ymweliad yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Eryri ac yn awr ym Mhlas y Bryn, gan gynnwys ymweliadau cyson ei diweddar ffrind Mr Lloyd Owen.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn ar 18 Ionawr yn Hafan Elan, Llanrug. Dechreuwyd y cyfarfod gyda gweddi. Trafodwyd amryw o faterion a godwyd wedi'r pwyllgor a gynhaliwyd ym Mangor ar 9 Rhagfyr. Y gŵr gwadd oedd Mr P. Taylor a chafwyd hanes diddorol ganddo am ei wyliau yn y Pyrénées. Yn gofalu am y baned roedd Mrs J. Ransom a Mrs E. Taylor a diolchwyd iddynt ac i Mr Taylor gan Mrs V. Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs S. Birbeck ac fe'i enillwyd gan Mrs M. Orritt.

Miss Margaret Griffiths, Rhiwlas, oedd y wraig wadd yn ein cyfarfod ar 8 Chwefror. Cafwyd sgwrs ddiddorol am ddiwrnod ym mywyd gwraig fferm amsercneifio yn 1874, a'r bwyd a ddarparwyd i'r gweision. Mwynhawyd y noson yn fawr iawn. Diolchwyd i Miss Griffiths gan Mrs M. Latham. Rhoddwyd y raffl gan Mrs E. Taylor a Mrs Marjorie Roberts a'i enillodd.

Bydd Cymun y Grawys ar 8 Mawrth yn Hafan Elan.

Ysgol Gymuned Cwm-y-glo: Mae'n bleser gallu cyhoeddi'r mis hwn fod bellach 35 o blant yn perthyn i'r Urdd ac yn aelodau o Adran Bentref Cwm-y-glo. Gallwn fod yn falch fod cymaint wedi ymateb i'r apêl y mis diwethaf. Ar hyn o bryd mae prysurdeb mawr wrth baratoi ar gyfer Eisteddfod Cylch Arfon sydd i'w chynnal yn Ysgol Brynrefail, Llanrug.

ar 6 Mawrth. Diolch o galon i'r rhieni hynny sydd yn rhoi o'u hamser i arwain y plant mewn gwahanol weithgareddau Celf a Chrefft bob nos Lun.

Treuliodd Robert, Luke, Andrew, Hugh, Twm, Sara a Lehanne o Blwyddyn 6 wythnos ddifyr iawn yng Ngholeg Glynllifon ar ddechrau'r mis. Diolch arbennig i Mrs Eleri Owen, Athrawes Bro, a Mr Rhys ab Elwyn, Ysgol Dolbadarn, am ofalu amdanynt ac i staff y coleg am eu croeso.

Rydym yn falch iawn o groesawu Drew Radnor sy'n ddisgybl yn Ysgol Pendalar atom bob prawn dydd Gwener. Mae Drew yn nosbarth Mrs Williams ac mae Susie ei chwaer wrth ei bodd yn cael ei gwmni.

Yn ystod y mis treuliodd Miss Wendy Smith wythnos yng Ngholeg Technegol Gwynedd fel rhan o gynllun Hyfforddiant yr Ifanc. Gobeithio ei bod wedi mwynhau y cwrs ac wedi elwa ohono.

Enillwyd Clwb yr Ysgol am fis Ionawr oedd Mrs Veronica Williams, Glanbogelyn, Cwm-y-glo a Mrs Mair Hughes, Glasgoed, Llanrug.

Cynhelir Tombola yn yr Ysgol ar nos Wener, 26 Mawrth, am 7 o'r gloch. Pwyllgor y Rhieni/Athrawon sydd yn trefnu hyn. Tocynnau 25c i oedolion, 15c i bensiynwyr a phlant i gynnwys paned a bisgedi. Croeso cynnes i bawb.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD

BANGOR
354646

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch
cartref yn ardal Llanrug

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri

am brisiau rhesymol

**ELWYN
PRITCHARD**

Parc Padarn, Llanberis

Ar agor Llun - Gwener
10.00 - 3.30

I gysylltu tu allan i'r oriau
hyn ffoniwch

Llanberis 870922
neu **Bangor 351427**



THE
**SEIONT
MANOR
HOTEL**

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY



HAMDEN

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.

Swper rhamantus i
ddau
Cinio hamddenol
Sgwrs hefo ffrindiau
dros baned o goffi
Brecwast, cinio neu
swper busnes
Parti dathlu
Cinio Dydd Sul i'r
teulu
Gwledd brodas
fythgofiadwy
Sauna, nofio, ystafell
ffitrwydd
Ymlacio ym mar y
llyfrgell

O SIAMBAR SELWYN

Fedwrn i ddim mynd fawr ymhellach heb wlychu 'nhraed a pheth rhyfygus fyddai gwneud hynny yn nyfroedd oerllyd Môr Iwerydd ar brynhawn iasoer niwlog ar ddechra'r Mis Bach.

Oeddw'n, roeddw'n i ym mhen draw Prydain — yn 'Land's End'. Aeth chwarter canrif neu fwy heibio ers pan fûm i'n troedio'r llwybrau hyn o'r blaen. Ydi, ma' petha' wedi newid yno. Adeiladau modern moethus ac amgueddfa forwrol ddiddorol yn arddangos y trychinebau a fu ar y môr, yn ogystal â golwg ar fywyd gwledig Cernyw yn y dyddiau a fu. Lle diddorol i dreulio pnawn yn y gaeaf hyd yn oed, a syndod oedd gweld cymaint o ymwelwyr yno mor gynnar yn y flwyddyn.

Y prif atyniad yno heb os yw y theatr electronig. Yma fe gewch dreulio tua hanner awr yn gwylio y *Legendary Lasg Labyrinth*, ac fe gewch y profiad real ac echrydus o gael eich hun mewn llong sy'n cael ei hyrddio a'i malurio'n briciau ar y creigiau.

Oedd, roedd hi'n goblyn o storm — dŵr hallt yn peltio eich wyneb, sŵn y taranau yn hollti'r awyr a'r mellit yn llif oleuo'r creigiau. Profiad byw a real. Profiad cofiadwy, llawn cyffro.

Yna i gloi, aed a ni yn ôl dros ysgwydd y blynnyddoedd i'r gorffennol pell. Y Brenin Arthur yn diflannu yn ei gwch drwy amdo'r niwl i gyfeiriad Ynysoedd y Scilly. Yn ôl traddodiad Cernyw yma yn rhywle rhwng y tir mawr a'r ynysoedd hyn mae Ynys Afallon yn dirgel lechu. I'r dyfroedd hyn hefyd y taflwyd y cleddyf Caledfwlch. O, oes ma' 'na rai o hen bysgotwyr 'Pen draw Prydain' yn dal i gredu'n gry' i'w hynafiaid glywed sŵn clychau yn canu yn y dyfnderoedd ar ambell i noson dawel. Mae 'na fwy nag un Cantre'r Gwaelod mae'n amlwg ac mae Arthur yn rhan o draddodiad sawl bro hefyd.

Rwy'n cofio i mi pan yn athro yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis, geisio dod ag Arthur yn nes adra at y plant. Ei wneud o yn un o'n 'hogia ni' — un o 'hogia'r Wyddfa' — a pham lai? Sôn am yr Wyddfa yr oeddem, ac am y cawr hwn yn golchi bawd ei droed yn nyfroedd Padarn. Gwylio'r trên yn smocio'i ffordd i fyny ei ysgwydd. Ia, y llonyddwch anferth hwn. Yna gofyn:

Ys gwn i ydi o'n wag tu mewn fel cragen?

Ai yng nghrombil hwn mae'r Ogof

*lle mae Arthur yn cysgu
lle mae'r bwrdd crwn
a'r gloch?*

Yna gweld mwg yn codi o gorun y cawr. Dyddiau difyr oedd rheini yn Ysgol Dolbadarn.

* * * *

Gwelodd T. Gwynn Jones ei Ynys Afallon mewn lle arall pan 'ymadawodd' Arthur, ac yn awdl gadeiriol yn Eisteddfod Genedlaethol Castell Nedd 1934 roedd y Prifardd William Morris yn adrodd stori am y bywiog lanc o fugail a ddaeth o hyd i 'Ogof Arthur' ar 'irwydd lechweddau'r Aran'.

Fe ganwyd y gloch yn awdl 'Ogof Arthur' a holwyd:

*Ai hon yw'r awr wen a rhydd
A yr genedl ar gynnydd
Awr i Arthur a'i wyrthiau
Eu huno, bawb, yn ei bau?*

Ond ateb yr henwr oedd:

*Huna deyrn. Ni ddaeth y dydd
Huna yn heddw y mynydd*

Me pob stori am Arthur yn stori ddiddorol a chyffrous, boed hi wedi ei lleoli yng Nghernyw neu yn ardal y Bala, neu mewn unrhyw ran o Brydain ran hynny.

Ond mi ga' i fwy o gysur wrth ddychmygu, ia, a choelio hefyd, mai yng nghrombil yr Wyddfa mae'r Ogof. Yno mae Arthur yn cysgu, yno mae'r bwrdd crwn, ac yno mae'r gloch.

Ia, i mi, un o hogia'r Wyddfa ydi Arthur. Pryd y cenir y gloch tybed? Ple mae Ynys Afallon?

RHAGHYSBYSIAD SÊL CIST CAR

ar lard Ysgol
Gynradd Llanrug
Nos Fercher, Ebrill 21
am 6.30 o'r gloch

TREFNIR GAN GANGEN
PLAID CYMRU LLANRUG

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Sefydliad y Merched: Brynhawn Sadwrn, Chwefror 6ed, cynhaliwyd Ffederasiwn Gwynedd / Caernarfon o Sefydliad y Merched yn Neuadd Ysgol Brynrefail. Canghenau Brynrefail a'r Waunfawr oedd y gwsteion ac estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan lywydd cangen Brynrefail, Mrs Pat Jones, a llywydd cangen y Waunfawr, Mrs Catherine Jones. Y cyfeilydd oedd Miss Lowri P. Roberts. Llywyddwyd y gweithgareddau gan Mrs Eileen Wilson y cadeirydd rhanbarthol. Y siaradwr gwadd oedd Mrs Dilwen Phillips a chafwyd anerchiad diddorol ganddi ar y testun 'Crefft Lom heb Wyddor'. Yn ystod y cyfarfod cafwyd adroddiad llawn ar weithgareddau canghennau'r rhanbarth gan yr ysgrifenyddes Mrs Rita Williams, Bethel. Paratowyd lluniaeth ar y diwedd gan aelodau cangen Brynrefail a'r Waunfawr.

Nos Lun, Chwefror 18fed, cyfarfu'r gangen leol yn y Festri. Roedd y noson yng ngofal y llywydd, Mrs Pat Jones, pryd y dangoswyd sleidiau ar weithgareddau Coleg Denman. Diolchwyd i'r llywydd gan Mrs Jennie Hughes. Roedd y baned yng ngofal Mrs Euronwy Roberts a Mrs

Eirlys Williams a diolchwyd iddynt gan Mrs Mair Jones. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Carol Houston, gan Mrs Eleanor Williams. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mawrth 18fed, pryd y ceir arddangos trefnu blodau ffres a sych gan Alwyn a Sarah Jones, Racca.

Cofion: Bu nifer o drigolion y pentref yn cwyno'n ddiweddar a rhai wedi treulio cyfnod mewn ysbyty. Anfonwn ein cofion at Mr O. J. Williams, Brynmelyn, Miss B. G. Owen, 2 Tai Orwig, Mrs J. Maxwell, Bro Dawel a Mr Elwyn Parry, Gwynfa. **Ar y Teledu:** Llongyfarchiadau i Anita Long, Tan yr Onnen, sydd wedi bod yn ymddangos yn ystod yr wythnosau diwethaf ar raglen HTV 'Trailblazers' fel aelod o dîm Cymru fu'n ymgymryd â champau awyr agored.

Apêl Slovenia: Bu ymateb rhagorol yn y pentref i'r apêl am nwyddau addas i drigolion Slovenia. Erbyn hyn, hyderir fod yr wyth ar hugain bocs o fwyd a dillad wedi cyrraedd pen eu taith. Trefnwyd yr ymgyrch gan y gangen leol o Sefydliad y Merched.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 870276

Cydymdeimlwn â Mrs J. Carr a'r teulu, Fron Olau, yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl.

Gwellhad buan: Dyna a ddymunwn i'r canlynol — Mrs Katie Williams, Morawel, sydd wedi ymgartrefu ym Mhlas y Bryn Bontnewydd; Mr W. E. Thomas, Bronant, ar ôl bod yn yr ysbyty ond sydd erbyn hyn ym Mhlas Pengwaith, Llanberis; Mr O. Edwin Wynne, Llety Llwyd, ar ôl iddo dderbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd; Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn, sydd wedi dod gartref o'r ysbyty.

Llongyfarchiadau: Ganwyd mab bychan ar Chwefror 19fed i Margaret a Wil Hughes (Tai Newyddion gynt), brawd bach i Gerallt ac ail ŵyr i Mr Harry J. Roberts.

Dewiswyd Sarah Jane, merch Einir a Geoff Sheppard yn frenhines i Garnifal Llanfairfechan. Roedd Einir (nee Wynne) yn byw yn Gelliod cyn priodi.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon (Waunfawr 799)

Llywyddiant: Llongyfarchiadau i Llinos A. Jones, Rhos-y-grug, ar ei llywyddiant ynennill gradd 3 gydag anrhydedd mewn arholiad theori piano.

Ymddiheuriad: Ymddiheurwn na soniwyd, yn yr adroddiad am y gwasanaeth datgysegru yng Nghapel Ceunant y mis diwethaf, am feddydd Carys Elizabeth Jones o Gaergybi, wyres fach Mrs Mary E. Jones, Tan-y-ffordd gynt. Cynhwyswyd detholiad o benillion gan fodryb Mrs Glenys Roberts, Llangedfni (chwaer Mary, Tan-y-ffordd gynt) yn y rhifyn diwethaf o'r Eco. **Noson Cawl a Gwin — Ysgol Feithrin Llanrug:** Fe'i cynhelir yn Penybont ar nos lau, 11 Mawrth. Bydd y noson yn dechrau am 8 o'r gloch a'r tocynnau yn £2 gyda'r elw tuag at yr Ysgol Feithrin. Dewch i gefnogi.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej


Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

MEDDYGFA NEWYDD LLANBERIS



Y Feddygfa newydd yn Llanberis.

Mae Meddygfa newydd Llanberis yn parhau traddodiad o arloesi meddygol yn y pentref. Yn y ganrif ddiwethaf, yn Ysbyty Chwarel Dinorwig, defnyddiai Dr Mills Roberts un o'r peiriannau 'X-Ray' cyntaf yng ngogledd Cymru i drin anafiadau.

Heddiw, ym Meddygfa newydd Cae Heti mae pedwar meddyg, dwy nyrs, rheolwr ac ysgrifenyddes practis, dau sy'n didoli ffisig, a staff derbynfa, yn trin cleifion yr ugeinfed ganrif. Gwnant eu gwaith mewn adeilad newydd braf a diddorol sydd hefyd yn nyrsio'r amgylchedd trwy ei ddewis gofalus o ddefnyddiau a thechnegau arbed ynni.

Meddai Dr Owen Jones mewn cyfweiliad arbennig ag *Eco'r Wyddfa*: "Toedd yr hen Ganolfan Iechyd ger y llyfrgell ddim yn ddigon mawr. A thrwy lunio adeilad newydd sbon roedd modd creu lle hwylus i'r meddygon weithio ynddo sydd hefyd yn creu amgylchiadau gwell i'r claf yr un pryd."

Ceisiwyd cynllunio adeilad modern oedd eto'n gydnaws â thraddodiadau pensaernïol y pentref, yn cynnwys defnydd o lechen, gwyngalch a ffenestri bwa. Yn yr hen Ganolfan Iechyd roedd rhesi o seti i'r cleifion ond yn y Feddygfa newydd mae'r stafell aros yn grwn. Mae hyn yn fwy cyfeillgar, gellir eistedd yn wynebu tuag i mewn neu allan — y cwsmer sy'n cael y flaenoriaeth ac o amgylch y stafell aros y mae gweithgareddau'r Feddygfa'n cylchdroi — yn ffigurol ac yn llythrennol.

Mae'r meddygon yn amlwg yn

falch o'u cyfleusterau modern. Mae cymeriad gwahanol i stafell pob meddyg ac offer meddygol pwrpasol, hyd yn oed stafell ar gyfer llawdriniaeth syml. I fyny'r grisiau mae stafell gynadleda a ddefnyddir ar gyfer darlithoedd hyfforddi, lle gall doctoriaid a nyrsus ddysgu am y datblygiadau diweddaraf.

Os aiff y darlithoedd yn ddiflas mae golygfa fendigedig o'r ffenestr fwa yn un pen i'r stafell. Tu allan mae gardd wrthi'n cael ei datblygu, ei gwelyau blodau a'i llwybrau'n parhau thema'r cylchoedd a geir yn yr adeilad. Medd Dr Jones: "Ni fydd yn ardd gyhoeddus i'r byd a'r betws ond bydd hawl gan bobl Llanberis ei mwynhau!"

Mae prosiect Meddygfa newydd Llanberis wedi costio tua £½ miliwn. Yr adeiladwyr oedd Thomson Construction Ltd, Bae Colwyn. Dywed eu Rheolwr Gyfarwyddwr, Peter Thomson: "Rydym yn falch iawn o'n gwaith ar yr adeilad ac yn ffyddiog y bydd pobl Llanberis a'r cylch yn cael budd a phleser ohono."

Penseiri'r prosiect ydoedd Adam a Frances Voelcker o Garndolbenmaen. Mae'n nhw'n hen lawiau ar gynllunio meddygfeydd a bellach yn gweithio ar eu seithfed. Yn ôl Adam Voelcker: "Mae'n adeilad "gwyrd" iawn. Ceir defnyddiau naturiol a'r rheini o fath y gellir eu hadnewyddu fel arfer. Ceir ffenestri coed yn lle PVC, a phren meddal yn hytrach na choed caled. Mae'r gwydr "low emissivity", fel y'i gelwir, yn gadael golau i mewn ond yn atal y gwres rhag dianc.

"Ceir dyfais tŵr yn yr adeilad sy'n caniatu i olau naturiol dreiddio i'r stafell aros. Wrth i'r aer cynnes godi i fyny'r tŵr caiff ei ffiltro a'r gwres ei ail-ddefnyddio. Mae'r sustem wresogi'n mesur y tymheredd tu allan a thu mewn ac yn addasu ei hun fel nad yw'r tymheredd tu mewn ond ychydig yn uwch na'r hyn ydyw tu allan. Defnyddir bylbiau trydan arbed ynni yn ogystal."


Mae Dr Jones yn brolio mai 'Dyma'r adeilad sydd wedi ei insiwleiddio orau yn Llanberis'.

Mae'r prosiect wedi cymryd dwy

flynedd i'w gwblhau. Yn naturiol mae mynedfa addas i'r methodig. Ychwanega Dr Jones: "Roeddem eisiau datblygu'r syniad o ddim iechyd yn y gymuned ac fe wnaethom hynny trwy greu canolfan i ddoctoriaid, nyrsus ac ymwelwyr iechyd. Nid wyf

yn rhagweld newidiadau dramatig yn ein dulliau o drin cleifion yn y pentref yn y tymor byr ond y mae'r amgylchiadau i ni ac i'n cleientau wedi newid yn syfrdanol er gwell ers agor Meddygfa Cae Heti."

R.J.R.



**ADEILADWYD
MEDDYGFA LLANBERIS
gan**

**THOMSON
construction ltd**

**7 Ffordd Wynnstay
BAE COLWYN
Clwyd LL29 8NB
Ffôn: (0492) 532118**

★
*Rydym yn falch o fod yn
gysylltiedig â'r datblygiad
cyffrous hwn*

DATHLU GŴYL DDEWI

Cynhaliwyd Cyngerdd Gŵyl Ddewi yn festri Capel Coch ar nos Lun, Mawrth 1. Arweiniwyd y noson gan Mr John Hughes a chymerwyd rhan gan Lleisiau Lliwedd, dan arweiniad Mrs Mattie Hughes a'u cyfeilydd Gareth Jones, a Chôr Meibion Dyffryn Peris o dan arweiniad Arwel Jones, a'u cyfeilydd Mrs Hefina Jones.

Y Cynghorydd Noel Davies oedd llywydd y noson, a chafwyd anerchiad ganddo yn galw ar efelychu Dewi Sant o ran ei heddychiaeth a'i bwyslais ar werthoedd moesol ac ysbrydol.

**ADRIAN A
FRANCES
VOELCKER**
Pantglas Uchaf,
Pantglas
Garndolbenmaen,
LL51 9DQ
Ffôn: 076675 657
PENSEIRI MEDDYGFA
LLANBERIS

★
*Rydym yn falch o fod yn
gysylltiedig â'r prosiect*

CYSTADLEUAETH

gan Y GWALCH

Roeddwn unwaith yn cerdded ar hyd ffordd wledig yn swydd Gaerwrangon a'r dydd yn hwyrhau, a minnau yn chwilio am gysgod i roi fy mhen i lawr. Ar drofa, deuthum yn sydyn i olwg bwthyn unllawr o frics cochion. Roedd enw'r lle ar glwyd fechan mewn llythrennau gwyn: 'Dream Cottage'.

Clywais lais tenor clir yn canu, a phan speciais drwy'r gwyrch trwchus i'r ardd, gwelais fod y llais yn dod o gramaffon oedd wedi ei gosod ar ben casgen, ac wrth ei hochr yr oedd dyn bychan yn pwyso ar ben rhaw.

Agorais y glwyd yn y man a cherddais i'r ardd, gyda'r esgus o ofyn cyfeiriad, ac mor astud oedd y dyn yn gwrandao ar y gân, nes y bu yn rhaid i mi fynd at ei ymyl cyn gallu cael ei sylw. Er hynny, ddywedodd o 'run gair nes i'r gân orffen. Eisteddodd ar fainc gerllaw a gwahoddodd i minnau wneud yr un peth. Roedd yn amlwg oddi wrth ei agwedd nad oedd yn cael llawer o ymwelwyr, ac yr oedd yn awyddus am sgwrs.

Deallais ei fod yn gweithio ar y ffordd, ac wedi bod yn trigo yn y bwthyn gyda'i wraig ers pan ddaeth adref ar ôl wynebu milwyr y Kaiser ar y Marne. Roedd wedi dod allan i'r ardd gan ei bod yn bnawn Sadwrn, i roi rhyw blwc o balu, ac wedi dod â'r gramaffon i'w ganlyn, gan ei fod yn hoff iawn o unawdwyr, a chan fod yn rhaid weindio'r offeryn rhwng bob cân, doedd yna fawr o arddio yn cael ei wneud, fel y tystiolaethai'r cnwd o ddanadl a dant y llew wrth ein traed. Yn amlwg, yn yr ardd honno, roedd yn rhaid i'r tymhorau aros wrth y gerddoriaeth.

Toc, daeth dynes i'r drws a gweiddi i ddweud fod y te yn barod. Atebodd y dyn bach ar unwaith, a dywedodd wrthi am osod un lle yn ychwanegol wrth y bwrdd. Ac yn y modd didramgwydd yma, heb lythrau o gymeradwyaeth na thystysgrif geni, y deuthum i fod o dan gronglwyd Ben Beddoes a'i wraig Elsi, i'r hon y cefias fy nghyflwyno fel: 'Y Cymro bach' ma sydd wedi dod bob cam o Lundain i'r wlad i chwilio am waith.'

'Oltreit,' meddai hithau. 'Mi wn beth sydd yn dod nesa. Medra, mi medra i roi lojin iddo fo 'run fath â'r lleill i gyd.'

Roedd Ben wedi goroesi drwy weithio ar un darn o'r ffordd am tua chwarter canrif, gyda'i fflag goch a'i fatog a'i fara caws a chwrw, a goddef-

garwch y trethdalwyr. Ei faes arbennig fel crefftwr oedd traen wedi cau. Roedd yn bysgotwr hefyd tros y Suliau, ac yr oedd ganddo feic modur a seidcar, a oedd yn ail i'r gramaffon, y peth pwysicaf yn ei fywyd. 'Mi aeth â ni ar ein mis mêl wyddost ti,' meddai.

Roedd Elsi yn cymryd gwaith cartref i mewn ar ffurf defnyddiau o ffatri Dents i wneud menyg. Roedd ganddi beiriant pwrpasol i bwytho'r 'gussets', a byddai cynrychiolydd yn galw am ei chynnyrch bob wythnos.

Ar ôl i mi gael pryd o fwyd a chyfnawid gwybodaeth, ac edrych ar y grogloffft lle yr oedd fy nghorffwysfan i fod, arweinwyd y sgwrs yn naturiol at y daladaeth i'w chynnal, ac am foddion i mi oroesi yn gyffredinol.

'Fyddi di byth yn brin o waith yn y gerddi yn yr ardal yma,' meddai Ben, ac fel un o hir brofiad o ddewis y llwybr haws, ychwanegodd. 'Cadw yn glir o'r gerddi marchnad fydd orau i ti. Chwilio am ardd ysgafn faswn i — ac mi wn i am yr union le hefyd ar fy 'length' i. Mi af i weld y bobol a rhoi cymeradwyaeth i ti hefyd.' Fel pe buasai wedi fadnabod am oes gyfan.

Ymhen tridiau daeth adref gyda neges galonog. Roeddwn i fynd trannoeth i weld perchenog tŷ mawr gwyn rhyw hanner milltir tu hwnt i'r pentre.

Roedd y tŷ wedi ei leoli uwchben y ffordd ac wedi ei amgylchynu â mur uchel. Ei enw oedd Bara, a derbynias hynny fel argoeliad da tuag at fy nghynhyrsgaeth.

Mr Ware oedd biau'r lle. Roedd o'n ganol oed ac yn y busnes o brynu a gwerthu hen ddodrefn, ac wedi priodi gwraig llawer ieuengach. Ymddangosai'r gŵr yn hapus yn teithio'r wlad ac aros oddi cartref am gyfnodau yn chwilio am hen ddarnau na wyddai'r perchenogion syml fawr am eu gwerth. Roedd Mrs Ware lygadlas, yn ffeiddio at ei ddulliau, ond yn berffaith barod i wario ei elw. Roedd hi'n gwario llawer ar yr ardd, yn bres ac yn amser, gan ei bod yn cael ei gadael ar ei phen ei hun mor aml. Yn wir, y diwrnod hwnnw yr euthum yno i gytuno, roedd y gŵr ar fedr ymadael ar un o'i deithiau, a gadawodd fi yng nghwmni ei wraig.

Y peth cyntaf a wnaeth hi ar ôl dangos i mi yr ardd oedd mynd a mi i'r tŷ, lle yr oedd ganddi gyflenwad o wirodydd, ac ar ôl fy mherswadio i flasau un neu ddau, dechreuodd

fynd i fy masged yn y modd mwyaf swynol. Y canlyniad oedd i mi ddweud y cyfan wrthi mewn manylder. Awgrymodd wedyn y buaswn yn cael trigo yno mewn fflat bychan uwchben y garej pe mynnwn.

Dechreuais weithio rhan amser yn yr ardd, ac yn y cyfamser yr oeddwn wedi cartrefu yn fuan yn y bwthyn hefo Ben ac Elsi, ac yr oeddent yn mynnu i mi gymryd rhan yn eu holl weithgareddau; fel mynd i lan y gamlas ddeng milltir i ffordd hefo'r beic a seidcar i bysgota bron bob dydd Sul.

Fu gen i erioed fawr o chwaeth at yr adloniant yma, a llai byth at ddull yr hen gwpl o'i fwynhau. Roedden ni'n cludo adnoddau am ddiwrnod cyfan i'n canlyn. Ar ôl cyrraedd y gamlas byddai Elsie yn eistedd mewn cadair blyg yn gwau, tra byddai Ben yn chwipio'r dŵr budr a thrafod ei grefft hefo rhai eraill a ddeuai am filltiroedd i wneud yr un peth. Gadawyd fi i grwydro'r glannau yn deisyfu am fod yn ardd Mrs Ware.

Yn wir, erbyn hynny roedd ganddi hi ffydd disigl yn fy ngallu fel garddwr. Byddwn yn cael fy mhrydau yn y gegin, ac ar ôl i'r ddynes lanhau adael, bydd Mrs Ware — neu Phyllis fel y mynnai i mi ei galw — yn ymgomio â mi, weithiau ymhell i'r prynhawn, am amrywiol bethau — yn bennaf amdani ei hun.

Pan elai allan yn y car am gyfnodau, byddai yn gadael y tŷ yn llwyr yn fy ngofal, a phenrhyddid i fwyta ac yfed beth a fyynnwn.

Ond daeth niwlen sydyn ar draws fy nen, ar ffurf rhyw sipsi fechan o'r enw Evora. Ymddangosodd ar un o'r dyddiau Gwener duon rheini sydd wedi dod â thrallod mor aml i wŷr teithiol ers dyddiau'r Lorelei.

Roeddwn wrth fy ngwaith pan gyrhaeddodd hon yn ysgafndroed o'm hôl. Roedd ganddi wisg Merino, ac o gwmpas ei gwddf roedd mwclis 'jade' wedi ei chwipio ddwywaith. Roedd edrych i'w hwyneb fel ceisio deall iaith dramor.

'Ydy'r musus i mewn brawd?' gofynnodd.

'Nac ydy,' meddwn i.

Ond gyda tro ar ei phen cerddodd i gefn y tŷ. Gwaeddais innau arni a'i dilyn, a llawn cystal hynny. Roedd hi yn y gegin erbyn hyn a'i basged nwyddau ar y bwrdd.

'Ei di,' meddwn, 'cyn fy gnhael i drafferth.'

'Mae arna i isio te gynta brawd a sigaret.' Ac mor daer oedd hi nes y gwnes banaid iddi a thanio un o sigarennau Mrs Ware ar ei chyfer. Roedd hi erbyn hyn yn eistedd ar y bwrdd ac yn siglo ei choesau ac yn holi fel Rhodd Mam.

'Mae arna i isio blodau,' meddai hi yn y diwedd.

Euthum i'r ardd a thorri bwnsiad o iris iddi, a chefais fadael â hi wedyn drwy berswâd — ond yn rhy hwyr. Pwy ddaeth i'w chyfarfod ar y dreif ond y feistres. Neidiodd o'r car a chythrododd i'r blodau oddi arni a daeth i fyny at y tŷ ar sgri.

'Beth ydy ystyr hyn?' meddai, ac yr oedd ei hagwedd gyfeillgar wedi diflanu yn llwyr.

Ar ôl i mi egluro sut yr oedd pethau, tawelodd beth a gofynnodd â oeddwn wedi cael te, a gwahoddodd fi i'r gegin i'w chynorthwyo i wneud peth, ond yno gwelodd ar unwaith dystiolaeth fy mod eisoes wedi cael fy mhaned, a hynny yng nghwmni gwestai.

Ail gododd ei thymer.

'Beth ar y ddaear ydy hyn?' gwaeddodd. 'Mi ddoist â'r slwt yna i fy nhŷ i ar ôl i mi droi fy nghefn, a phrynu ei ffaf'r hi hefo fy eiddo ar ben hynny.'

Ond doedd ei chynddaredd ddim yn gymaint yn un benyw wedi ei thwylo, a chynddaredd un sybil wedi ei chyfnawid am un arall. A dyna fu diwedd fy ngyrfa yn Bara, cyn i mi, mewn ffordd o siarad, brin ddechrau ar y dorth.

Bu raid i mi ddweud yr hanes wrth yr hen gwpl, ac yr oeddwn yn disgwyl cerydd, yn enwedig gan fod Ben wedi canfod y gwaith i mi yn y lle cyntaf. Ond Elsi a dawelodd fy meddyliau.

'A dweud y gwir llanc — roeddwn i yn ei weld o'n dŵad o bell.'

CARTREF HENOED



Caernarfon
(0286) 674652

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau


44 Glanffynnon
LLANRUG

Caernarfon 673513



BARRY'S GLASS

- am Ffenestri a Drysau UPVC • Estimates am ddim
- Gwydr a gwydro o bob maint • Ffenestri Gwydr Dwbl
- Gwasanaeth bordio a gwydro 24 awr.



Y PRISIAU GORAU - GARANTID!

CAMELOT, PENISARWAUN

871144 (Dydd)

871774 (nos)

PEINTWYR PADARN (Trefor Jones ac Alan Bee)

LLANBERIS

am waith da ...

- ★ tu fewn a thu allan
- ★ crefftwyr gofalus
- ★ prisiau rhesymol
- ★ amcanbrisiau am ddim

Ffoniwch 870397



NEWYDDION YSGOL BRYNREFAIL

CYSWLLT Â DIWYDIANT



Rhai o ddisgyblion blwyddyn 10 fu'n ymweld â chwmni DMM yn ddiweddar.

Cryfhau mae'r bartneriaeth rhwng Ysgol Brynrefail a'r byd diwydiant/busnesau lleol. Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu holl ddisgyblion Blwyddyn 10 yn ymweld â Ffatri DMM yn Llanberis.

Hoffai'r Ysgol ddiolch i berchenogion Bwsiau Arvonias am eu cefnogaeth wrth noddi'r cwis 'Ymwybyddiaeth Economaidd a Diwydiannol' am eleni, ac am gydweithrediad gwerthfawr cwmni DMM.

Ennill Ysgoloriaeth: Llonyfarchiadau gwresog i Lowri Angharad ar ennill ysgoloriaeth Evan Morgan i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Gwerth yr Ysgoloriaeth hon yw £600 y flwyddyn am gyfnod o dair blynedd. Bwriad Lowri yw astudio'r gyfraith yn Aberystwyth y flwyddyn nesaf. Ar hyn o bryd mae hi'n paratoi ar gyfer ei arholiadau Safon A yr haf yma mewn Cymraeg, Saesneg a Hanes.

Ymweliad beirdd â'r Ysgol: Yn ystod y tymor yma ymwelodd Menna Elfyn a Gillian Clarke â'r gyfadran iaith ar bedwar achlysur. Buont yn cynnal gweithdai â nifer o ddisgyblion blwyddyn 7 ac 8. Bwriad y gweithdai oedd ennyn ymwybyddiaeth o lenyddiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. O ganlyniad i'r gweithdai cynhyrchwyd gwaith creadigol arbennig gan y disgyblion a fu'n rhan o'r cynllun.

Fe welir, gyferbyn, enghreifftiau o gerddi rhai o'r plant a fynychodd y gweithdai.

Yr Urdd: Ar ddydd Gwener, Chwefror 16, ymwelodd Aled Siôn â'r Ysgol ar ran o daith gyhoeddusrwydd Glanllyn. Bwriad yr ymweliad oedd creu ymwybyddiaeth o'r gwahanol gyfleusterau a chysiau sydd ar gael yng Ngwersyll Glanllyn.

Cynhaliwyd pedwar sesiwn o hanner awr yr un â phob grŵp. Cafodd y grwpiau gyfle i wyllo fideo ynglŷn â'r gwersyll ynghyd â holi am

y gwahanol gyfleusterau ac adnoddau sydd ar gael yno. **Cynllun Menter Ysgolion ar y cyd â Chwmni BP:** Ers dros fis mae wyth o fyfyrwyr Coleg y Brifysgol Bangor wedi bod yn ymweld â nifer o adrannau o fewn yr Ysgol fel rhan o'r Cynllun Menter Ysgolion. Myfyrwyr ar eu hail a'u trydedd flwyddyn yn y Brifysgol yw rhain. Byddant yn ymweld â'r Ysgol dros gyfnod o wyth wythnos am hanner diwrnod yr wythnos. Yn ystod yr amser yma maent yn cymryd rhan yn y gwersi yn yr adran yn yr ysgol sy'n ymwneud â'u pwnc gradd yn y Brifysgol.

Bwriad y cynllun yw hybu diddordeb yn y byd addysg yn gyffredinol. Ar ddiwedd y cwrs bydd y rhai a gymrodd ran yn derbyn tystysgrif i brofi eu hymroddiad.

Ennill gwobr: Llwyddodd Kim Gardiner o flwyddyn saith i ennill cystadleuaeth ar Slot 23 ar S4C i gynllunio cerdyn Santes Dwynwen. Ei gwobr oedd pecyn o nwyddau yn cynnwys crys-T, cap a bag. Derbyniodd nifer o'i dosbarth wobrau cysur.

Cyfeillion Ysgol Brynrefail — enillwyr Clwb Cant am fis Ionawr: Carolyn Roberts, Penisarwaun; C. a D. Rochelle, Bethel; Nan Owen, Llanberis. Enillwyr mis Chwefror: Eirwen Williams, Bae Trearddur; Meirion Wyn Jones, Waunfawr; Nan Owen, Llanberis.

YR AFON

Mae afon Seiont yn rhuthro drwy Lanrug i Gaernarfon fel neidr hir yn troelli.

Bydd yr afon yn gweld eog a brithyll yn dal pryfaid a gweld chwrligwgan, trobwll, mwsog ar gerrig.

Mae afon Seion yn gweld pysgotwyr yn lluchio llinyn yn aros, yn disgwyl y ddalfa.

Bydd yr afon yn meddwl am y Rhufeiniaid fu wrthi am yr hen, hen hanes.

Steven Wyn Thomas, 8S

Y MYNYDD

Mae'r mynydd yn sibwrdd fod eira arno. Dafad yn chwarae ac yn rhedeg. Grug a mwsog. Pobl yn cerdded yn arogl'r awyr. Dafad yn diogi. Mynydd yn gweld atlas o amgylch yn llawn gwifrau.

Lisa, 8S

Y RHAADR SWNLLYD

Mae'r rhaeadr yn canu trwy chwistrellu dŵr oer fel barf gwyn mawr o swigod. Mae'r rhaeadr yn tasgu ac yn poeri ym mhob man fel haid o golomennod.

Mae'r afon yn rhoi i'r môr. Mae'r rhaeadr yn teimlo rhyddhad.

Mae'r rhaeadr yn chwil ac yn teithio tua'r môr trwy ddyffrynoedd. Y môr mawr! Mae'r rhaeadr yn rhuthro tua'r cei.

Elfed Williams, 8S

Y CAPEL

Mae'r capel yn breuddwydio am bobl yn canu yn brysus a gweld y seti yn llawn a'r Beibl ar agor yn disgwyl i rywun ei ddarlenn — y pregethwr — yn ddu a gwyn fel pengwin.

Ac yn clywed pobl yn cael sgwrs sydyn a phres yn cael ei daflu i'r boc a chlywed yr organ yn canu'n swynol a phobl yn gweddio. ac yna'n mynd adref.

Llŷr Morris, 8S

Grani • Bedyddio • Lloed • Priodas

Disgyblion • Dwyddyn • Ffatriadau • Ffatriadau • Ffatriadau • Ffatriadau • Ffatriadau • Ffatriadau

✿ Ffathysur arbennig? ✿
✿ Ffathysur arbennig? ✿
Beth am un o sampleri

PWYTHAU CAIN

✿ Cynllunir pob sampleri yn ôl dymuniad ac arghenion yr unigolyn.

✿ Hefyd gwniaidwaith o bob math gwned dillad, newidiadau, ffenni, a.y.y.b.

✿ Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd • Darparu a farddoniaeth

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

ERIC JONES


PENISARWAUN

Ffôn: 872421

PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO

- ★ Prisau rhesymol
- ★ Spreio tu mewn a thu allan
- ★ Estimates am ddim

LLWYDDIANT FFOTOGRAFFYDD



Y mae brodor o Lanberis, sy'n byw erbyn hyn yng nghyffiniau Manceinion, wedi bod yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth i ffotograffwyr proffesiynol. Enillodd David Pitts, mab Mrs Elisabeth Pitts, 53 Dôl Elidir, yr ail wobwr yng Nghystadleuaeth Ffotograffydd Priodas 1992 a drefnwyd gan Y Gymdeithas Ffotograffwyr Priodas. Y mae David yn ffotograffydd proffesiynol ers pedair mlynedd bellach, a chanddo stiwdio yn Radcliffe, Manceinion. Yr oedd un o'i luniau wedi cipio'r wobwr gyntaf yn ei ddosbarth ym mis Awst cyn ei ymddangosiad yn y prawf terfynol. Llongyfarchwn David ar ennill ohono ei wobwr gyntaf ers iddo fentro i fyd y ffotograffwyr proffesiynol.

**OSMOND SHAW
DEINIOLEN**

GWERTHU

- TRWSIO

★ Teledu

★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth

Ffôn 24 awr

LLANBERIS 870545

**CARPEDI
GLÂN**

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf,
sydd ar gael. Am

fanylion cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 650291

hefyd ail-osod carpedi

GWAITH FFRWYTHLON!

Daeth sôn am helyntion 'Wil Watchman' yn y rhifyn diwethaf ac atgof o stori arall i mi.

Wedi dychwelyd o'r Amerig fe aeth Wil am gyfnod i weithio yn Ffrainc ac yr oedd ganddo waith arbenigol iawn yno yn trwsio cregyn malwod — y malwod hynny oedd yn cael eu datblygu ar gyfer prif westai Paris. Gwaith ara' deg a llafurus oedd hyn, chwedl Wil, ac wedi iddo gael llond bol — yn llythrennol — o'r malwod a Ffrainc fe ddaeth yr hen ysfa ar Wil i ddychwelyd i fro'r chwareli.

Fe weithiodd ei ffordd i ogledd Ffrainc ac yna croesi'r sianel i Dover. Er mwyn arbed arian penderfynodd ei ffawdheglu hi o Dover i Lundain gan obeithio y cai lifft oddi yno yn un o fysus Purple Motors (doedd KMP ddim yn bod yr adeg honno!). Rhai gwael am roi lifft oedd y Saeson, meddai Wil, ac fe dreuliodd amal noson yn chwyrnu ym môn clawdd. Diolch byth ei bod hi'n haf cynnes, sych! Deffrôdd un bore i ddarganfod ei fod wedi bod yn cysgu yng nghysgod arwydd mawr — arwydd yn hysbysebu cynnig gwaith dros dro yn y perllannau yn casglu'r afalau a'r gerllyg. Ym marn Wil roedd y telerau ariannol yn weddol ffafriol ac yn nefoedd ar y ddaear gan fod yno 'farics' i'r gweithwyr gysgu ynddynt.

Teimlai Wil fod hwn yn gyfle gwyh i ennill tipyn o arian gan ei fod yn arbenigwr ar ddwyn afalau pan oedd yn blentyn ac roedd y syniad o gasglu ffwythau a chael ei dalu am

wneud hynny yn apelio'n fawr! Onid oedd Swydd Caint yn 'Ardd Lloegr'?

Gwaith iach iawn oedd y casglu, er bod yn rhaid wrth dipyn o hunan-ddisgyblaeth rhag bwyta'r elw!

Roedd yna dipyn o alw am gynnyrch y berllan ac felly fe gyflwynwyd cynllun o daliadau 'bonws' fel mai y mwyaf a gesglid y mwyaf a fyddai'r tâl. Fesul y basgedaid y talwyd i'r gweithwyr, a'r arferiad oedd i bob gweithiwr roddi ei fasedgi i gyd mewn un bwndel ar gyfer eu cyfrif. Mewn ychydig o ddyddiau roedd y gweithwyr yn cydnabod Wil yn dipyn o ben-campwr ar y casglu. Yr hyn oedd yn syndod i Wil oedd fod ei 'gyfanswm' basged o i'w gweld yn llawer is nag y tybiai — yn amlwg roedd rhywbeth o'i le.

Y noson honno wedi i'r gwaith ddod i ben aeth Wil i guddio i ben coeden lle y cai olygfa glir o'r twmpathau basgedi. Yn sydyn gwelai gysgod yn dod at ei fasedgi ac yn symud rhai ohonynt drosodd at domen o fasedgi eraill. Ni ddywedodd o ddim am y peth ond pan welodd yr un peth yn digwydd drannoeth roedd Wil yn gandryll. Yn waeth na hynny roedd y lleidr yn mynd a rhai o afalau Wil hefo fo. 'Nid yn unig roedd o'n dwyn fy nghyflog, ond roeddwn i'n gorfod ei fwydo fo hefyd,' meddai Wil.

Fore drannoeth mentrodd Wil i'r dref gyfagos a phrynodd dau beth rhyfedd iawn — llond trol o ganhwylau a photiau paent coch a

gwyrd. Tipyn o adyn fu Wil am rai nosweithiau. Ymhen amser roedd y canhwylau i gyd wedi eu meddalu'n wêr ac wedi eu troi yn beli crynion, ac yn ddeheuig iawn fe daenwyd y paent gwyrd a choch drostynt. Yna fe roddwyd yr afalau hyno o 'olygus' yma ar ben pob basged ffrwythau a gasglwyd ganddo.

Y noson ganlynol clywyd sŵn gruddfan mawr yn dod o un o'r barics. Roedd pawb yn amau fod y creadur yn dioddef o'r 'appendix' a rhaid oedd galw'r meddyg ac fe benderfynwyd i anfon y claf i'r ysbyty lleol. Datgelwyd yno mai wedi 'bwyta' rhywbeth oedd y claf.

'Piti,' meddai Wil, 'Mae'n amlwg nad yw "afal y dydd yn cadw'r meddyg draw"!'

1. A ydych yn gwybod y gwahaniaeth rhwng pen blaen a phen ôl camra?

2. A ydych yn barod i helpu'r Eco o bryd i'w gilydd?

Os fedrwch chi ateb ydwyf i'r ddau gwestiwn uchod, trowch ar unwaith i dudalen 15.

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

London House

LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

**DAVID
CLOUGH**

Ynysoedd

WAUNFAWR

Ffôn: 650282

Paentio ac Addurno

Gwaith Atgyweirio

'Estimates' am ddim

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn 1/2/93 — £30: Mrs A. Owen, Ffordd Capel Coch (69); £25: Mrs M. Jones, 2 Llainwen Isaf (104); £15: Mr John Pike, 2 Bryn Hyfryd (37); £10: Mrs A. Pritchard, 1 Ffordd Padarn (168); £5: Mrs G. Price, 4 Tai Castell, Deiniolen (93).

Cymdeithas Eglwys St Peris a St Padarn: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn festri Eglwys St Padarn, nos lau, 4 Chwefror. Dechreuwyd trwy weddi dan arweiniad Mrs Dilys Phillips. Croesawyd y gŵr gwadd, yr Heddwas Alan J. Bevan, Swyddog Atal Troseddau, gan y Cadeirydd Mrs Ann Parry-Jones. Cafwyd sgwrs addysgiadol iawn ganddo ar sut i ddiogelu ein cartrefi, ein heiddo a ni ein hunain. ynghyd â gweld peth o'r offer sydd ar gael at y gwaith. Daeth a'r sgwrs i ben gyda chwis ysgafn ar wybodaeth o'r gyfraith. Rhoddwyd y baned arferol a'r anrheg, a enillwyd gan Mrs Betty Hughes, gan Mrs Hilda Williams a Mrs Olwen Roberts. Diolchwyd iddynt hwy ac i'r Heddwas Bevan gan Miss Sheila Foulkes.

Cyfeillach Capel Jerwsalem: Yng nghyfarfod mis Chwefror, o dan lywyddiaeth y Parchg Gwynfor Williams, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr Cledwyn Jones gyda sleidiau lliwgar yn dangos ffrwyth ei grwydro yn ei filltir sgwâr ac yn Sbaen. Darparwyd lluniaeth gan chworydd y Gyfeillach. Cynhelir y cyfarfod nesaf am 2 o'r gloch brynhawn dydd Mawrth, 2 Mawrth, ac fe edrychwn ymlaen am sgwrs gan Mr Robert Lloyd.

Caniadaeth y Cysegr: Bydd y BBC yn recordio'r rhaglen yng Nghapel Jerwsalem am 7 o'r gloch, nos lau, 6 Mai, ac fe'i darlledir ar y Sul, 13 Mehefin.

Cyngor Cymdeithas Llanberis: Cynhaliwyd cyfarfod yn Angorfa, nos lau, 18 Chwefror am 7 o'r gloch gyda'r Cyng. Ken Jones yn y gadair.

Derbyniwyd ateb oddi wrth y Cyngor Sir i gwynion am safon torri a chlirio gwair yn y plwyf. Eglurwyd i'r Cyngor fod swyddogion y Cyngor Sir yn eithaf bodlon ar safon y gwaith ac fod gofynion yr Awdurdod yn pwysleisio ar ddiogelwch defnyddwyr y ffyrdd ac nid lles yr amgylchedd. Pasiwyd i ddatgan anfonlonrwydd y Cyngor o bolisi'r

Cyngor Sir.

Rhoddwyd adroddiad is-bwyllgor y fynwent gan y Cyng. Selyf Hughes a chyflwynodd ei gynllun o'r estyniad sydd ar y gweill i ehangu'r fynwent newydd. Derbyniwyd y cynllun i'w gyflwyno i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a rhoddwyd diol unfrydol y Cyngor i Mr Hughes o'r gadair.

Derbyniwyd amryw o gwynion gan y Cyngor ac unigolion am gyflwr y fynwent newydd. Dymuna'r Cyngor bwysleisio mai cyfrifoldeb y Cyngor Eglwysig Llanberis yw y fynwent yma, ac os oes cwynion dylid eu hanfon i Gyngor yr Eglwys.

Cynllunio: 1, Newid defnydd hen ysgol Nant Peris o ffatri i dŷ preswyl; 2, Newid rhan o siop greffttau 58 Stryd Fawr, yn ystafell lle ceir pryddau ysgafn; 3, Codi adeilad i drin dŵr yfed yn Nant Peris. Wedi trafodaeth cefnogwyd y tri cais uchod.

Pasiwyd i wrthwynebu cais y Cyngor Sir i wahardd parcio ar y ffordd fawr ger y Feddygfa newydd.

Wedi astudio cais y Sir i wahardd parcio ar Ffordd Padarn pasiwyd i ofyn am gynllun mwy manwl.

Derbyniwyd cwyn am safon arwyddion yn arwain i'r Lôn Las, yn enwedig ym Mhen Llyn. Pasiwyd i anfon y gwyn ymlaen i'r Cyngor priodol.

Rhedwyr: Yn ddiweddar aeth rhai o blant y pentref i redeg ym Mhencampwriaeth Rhedeg Trawsgwlad Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn Wrecsam. Enillodd Alun Vaughan y wobwr gyntaf yn y ras i fechgyn o dan 15 oed. Daeth Elin Harding yn bedwerydd, Rachel Jones yn chweched a Sarah Jones yn nawfed yn y ras i enethod o dan 11. Degfed oedd Gareth Jones ac ugeinfed oedd Alwyn Jones yn y ras i fechgyn o dan 11 oed. Fe enillodd Elin, Rhachel a Sarah y wobwr gyntaf fel tîm gorau genethod o dan 11 oed. Maent i gyd yn aelodau o Rhedwyr Eryri. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd. Roedd yna ar gyfartaledd tua 50 o redwyr ym mhob ras.

Côr Meibion Dyffryn Peris: Mae'r Côr wedi cael dechrau eithaf prysur i'r flwyddyn newydd. Cafwyd gwahoddiad i gynnal Noson Lawen yn festri'r Capel Mawr, Llanrug, ar nos Fercher, 20 Ionawr. Cynhaliwyd noson o hwyl a sbri yng Nghlwb yr Oval, Caernarfon, pan gafodd yr hogia groeso twymgalon gan y cofis.

Bu'r côr yn cynnal Noson Lawen yn y Bontuchel, ger Rhuthun, ar nos Sadwrn, 13 Chwefror; nos Lun, Mawrth 1, gyda Lleisiau Lliwedd yn y Capel Coch; ac mewn Cymanfa Ganu yn Nhal-y-bont, Bangor. Ar 16 Ebrill byddant mewn Noson Lawen yn Rhoshirwaun, Llŷn.

Cafwyd noson ddifur iawn yng Ngwesty Dolbadarn ar nos Sadwrn, 23 Ionawr, yng nghwmni Gareth Glyn a Lleisiau'r Frogwy a mwynhawyd eitemau unigol ynghyd â deuawdau a straeon digri. Gwelwyd Gareth Glyn ar ei orau fel arweinydd a chyfeilydd i'r côr. Trefnwyd raffl gan Roy ac Ifor a'r enillwyr oedd — 1, Tecwyn, Cae Rhos; 2, Victor Hughes, Sir Fôn; 3, Shelah Attkins; 4, Medwyn Roberts; 5, Mrs J. Davies; 6, Eifiona Harries; 7, 871159; 8, 870225; 9, Tecwyn,



O ganlyniad i ddau gyngerdd a gynhaliwyd yn Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis, gan Gôr Meibion Dyffryn Peris a Hogia'r Wyddfa; ac hefyd cyngerdd gan Hogia'r Wyddfa yng nghlwb Ysbyty Gwynedd, llwyddwyd i gasglu dros £500 tuag at y Gronfa Haemotoleg.

Yn y llun yn sefyll o'r chwith i'r dde yn y cefn: Dr Dafydd Roberts ar ran

Amgueddfa'r Gogledd; Cyril Jones, Cadeirydd Côr Dyffryn Peris; Mrs Hefina Jones, cyfeilydd y Côr; Arwel Jones ac Elwyn Jones, Hogia'r Wyddfa; a Bryn Williams, trysorydd y Côr.

Yn sefyll yn y blaen y mae Mr Phil Parry, cadeirydd clwb Ysbyty Gwynedd; ysgrifenyddes y clwg a Dr Tom Korn o Ysbyty Gwynedd.

Cae Rhos; 10, Wil Lôn Bost; 11, Eirys Rowlands; 12, Margaret Jones; 13, Jean Roberts.

Roedd elw'r noson tuag at Gôr Meibion Dyffryn Peris, gyda diolch i Elwyn Wilson-Jones am drefnu'r noson.

Lleisiau Lliwedd: Cynhaliodd aelodau Lleisiau Lliwedd arwerthiant yn Festri Capel Coch ar nos lau, Chwefror 18. Bu'n noson lwyddiannus iawn a dymuna holl aelodau'r côr ddiolch am bob cefnogaeth a roddwyd i'r arwerthiant.

Y Gymdeithas Lenyddol: Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 9 bu Mrs Maureen Lennon yn adrodd peth o hanes ei gyrfa fel athrawes. Roedd ei sgwrs yn hynod o ddiddorol ac wedi ei gwerthfawrogi gan bawb. Diolchwyd iddi gan Mr Gareth Jones. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn festri Capel Coch, nos Fawrth, 9 Mawrth am 7 o'r gloch. Mr Rol Williams, Waunfawr, fydd y gŵr gwadd.

Diolchiadau:

Dymuna Derfel, mab Mr a Mrs G. Owen, 9 Stryd yr Wyddfa, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion oll am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed.

Dymuna Dennis a Lola Evans, 15 Stryd Fawr, ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn, tra bu Dennis yn yr ysbyty ac wedi iddo ddod adref. Diolch o galon.

Dymuna Mr a Mrs Joe MacKay, 4 Stryd Ceunant, ddiolch i Feddygon Llanberis ac Ysbyty Gwynedd, ac yn arbennig i'w cymdogion yn Stryd Ceunant am eu caredigrwydd yn eu gwaeledd. Diolch hefyd i'w ffrindiau am y cardiau a'r rhoddion.

Dymuna Mrs Doris Griffith, 8 Dôl Elidir, ddiolch am y caredigrwydd a gafodd o du ei theulu, ei chymdogion a'i ffrindiau yn ystod ei gwaeledd yn ddiweddar.

Dymuna Delyth ac Arthur, 12 Maes Padarn, ddiolch i bawb am eu gofal a'u caredigrwydd ar achlysur geni merch fach iddynt yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor, ar 8 Chwefror. Diolch hefyd am lu o anrhegion a chardiau.

Dymuna Mrs Linda Williams,

Carlinig, Lôn Tŷ Du, ddiolch o galon i'w ffrindiau am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a gafodd tra'n derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Dewi Sant yn ddiweddar ac wedi dod adref.

Dymuna Marcia a theulu y diweddar Idwal John Thomas, Dolwerdd, 2 Preswylfa, ddiolch yn ddifffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am yr holl gardiau, llythyrau a galwadau ffôn a dderbyniwyd, ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Ward Hebog, Ysbyty Gwynedd, a Meddygfa Llanberis. Diolch hefyd i'r meddygon, gweinyddesau a ffrindiau am bob cymorth yn ystod ei waeledd.

Dymuna teulu'r ddiweddar Miss Mary Catherine Pritchard, Berth, ddiolch am bob cydymdeimlad a ddangoswyd atynt yn eu profedigaeth yn ddiweddar.

Ysgol Dolbadarn: Cynhaliwyd noson Bingo lwyddiannus gan Gymdeithas Ffrindiau'r Ysgol yng Nghlwb y Lleng Brydeinig ar Chwefror 12, a gwnaed elw o £434. Bydd y Gymdeithas yn cynnal Noson Goluro a Llestri yng Ngwesty'r Dolbadarn, nos lau, Mawrth 11 am 7 o'r gloch. Cynhaliwyd Bore Coffi yn y Bistro ar Chwefror 26 er budd yr Ysgol hefyd. Anfonwn ein cofion gorau at Mrs Nan Humphreys sydd gartref o'r Ysgol ar hyn o bryd; brysiwch wella Mrs Humphreys.

Cyfarfod Gwedd: Bydd y cyfarfod gwedd i undebol yn cael ei gynnal yn festri Capel Coch, am 2 o'r gloch, brynhawn Mercher, Mawrth 17.

Angen Dosbarthwyr: Dymunwn ddiolch i Pat a Meira Willis a'r plant a fu'n dosbarthu Eco'r Wyddfa yng nghylch Maes Padarn a Dôl Eilian ers blyneddau. Gan eu bod wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r gwaith erbyn hyn, mae angen dosbarthwyr newydd yn y rhan yma o'r pentref. Byddai Gwilym Evans, Tŷ Crwn (Ffôn: Llanberis 872034) yn falch o glywed oddi wrth rywun a fyddai yn barod i helpu'r Eco gyda'r gwaith hwn.

Heliwch eich traed
am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470**



WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Enillwyr Clwb 300 mis Ionawr — £40: Marion Iwan, Afallon; £25: Mrs E. C. Williams, Dwyfor; £10: Mrs Glenys Williams, Ty'n Weirglodd, Betws Garmon.

Diolch: Dymuna Mr Bill Owen, 18 Tref Eilian ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau, pell ac agos, am y galwadau ffôn a'r cardiau a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

Llongyfarchiadau

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchwn Aled Rhys Jones, Pen-y-graig, am lwyddo gyda teilyngdd yn yr arholiad piano, gradd 1.

Dathlu Priodas: Llongyfarchiadau i Gordon a Mena Roscoe, Tŷ Ni, ar ddathlu eu Priodas Arian.

Dyweddio: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mandy Griffith, Bro Waun ar ei dyweddïad â Ceirion Evans o Gaernarfon.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs H. Parry, 16 Bro Waun, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd merch i'w mherch Sharon a'i gŵr John, chwaer fach i Sarah a Lisa. A chroesawn Mrs Parry adref o'r ysbyty gan ddymuno gwellhad buan iddi.

Cymorth Cyntaf: Llongyfarchiadau i Bethan Williams, Bryn Meurig, ar lwyddo mewn arholiad Cymorth Cyntaf gyda Chymdeithas Ambiwylans Sant Ioan.

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ysgol Syr Huw Owen (isaf) a fu'n cystadlu yn eisteddfod yr ysgol.

Adref o'r Ysbyty: Croesawn Mrs Catherine Jones, Bryn Derwen, a Mrs Ild Williams, Bro Waun, adref o'r ysbyty.

Tra ar ymweliad â'i rhieni yn Aberystwyth cymrwyd Gwenllian Dafydd yn wael a gorfu iddi fynd i Ysbyty Bronglais. Bu yno am wythnos ond mae hi wedi gwella digon erbyn hyn i gael dod adref i Glanfa. Brysia wella'n iawn Gwenllian.

Anfonwn hefyd ein cofion a phob dymuniad da am wellhad llwyr a buan i drigolion y pentref sydd wedi bod yn symol eu hiechyd yn ystod y gaeaf.

Diolch am blygu: Diolch i swyddogion Capel Croes-y-waun am fod mor barod i adael inni gael plygu'r Eco yn y festri, ac i bawb a ddaeth yno i wneud y gwaith.

Profedigaeth: Ar 2 Ionawr eleni,

ychydig ddyddiau cyn dathlu ei phen-blwydd yn gant oed ar Chwefror 16, bu farw Mrs Ellen Parson, 65 Stanley Park, Lerpwl. Roedd yn unig ferch i John ac Elin Jones, Gwastadfaes gynt, a chwaer i'r diweddar Robert Morris Jones, Cynant Lodge a John Austin Jones, Penrhos. Gedy ferch, Edna, ac wyres, Janice.

Y Gymdeithas Lenyddol: Daeth cynulleidfa deilwng iawn i'r Ganolfan nos Lun, Chwefror 8, i glywed darlith ddifyr a meistrolgar gan Mr R. Maldwyn Thomas, Bangor, ar rai o bapurau Caernarfon a'u dylanwad ar y cymunedau. Llwydd y noson oedd Mr Iolo Huws-Roberts, a gyfansoddodd yr englyn hwn i gyfarch y siaradwr:

Mistar y 'Pennau Siarad' — a llywiwr

Llawen ei arweiniad,

A dywedwr dioediad,

A dewin glew radio'n gwlad.

Talwyd y diolchiadau gan Mr Eifion Glyn. Cynhelir cyfarfod olaf y Gymdeithas ar nos Lun, Chwefror 22, gyda sgwrs gan Mr R. Gwynn Davies ar y testun 'Lliw yn y Llys' gyda Mr Eurig Wyn yn gadeirydd. Hysbyswyd yr aelodau na fydd swper i gloy y tymor ond fe fydd trip gyda'r nos yn ystod Mehefin a gofynnir i'r rhai sy'n bwriadu dod ar y trip roi eu henwau i Stanley Williams neu Rol Williams ar fyrder er mwyn gwneud y trefniadau.

Adran yr Urdd: Wrth i eisteddfodau'r Urdd agosau mae plant y pentre yn brysur iawn yn ymarfer pethau mor amrywiol â chân actol a pharti recorders. Bydd cyfle i weld llafur gwaith caled y plant ar nos Fercher, 3 Mawrth pan fydd yna gyngerdd yn cael ei gynnal yn y Ganolfan, i

ddechrau am 6.30 o'r gloch. Diolch i bawb a fu wrthi mor galed yn dysgu'r plant.

Fel y tymor diwethaf rydym wedi cael amrywiaeth yn ein rhaglen eleni. I ddechrau'r tymor daeth Sylvia Prys Jones atom i sôn am Lydaw. Trwy gyfrwng lluniau a storïau cawsom flas ar wlad Geltaidd arall a chafodd y plant weld mor debyg yw'r ddwy iaith. Cyn mynd adre cawsant gyfel i wneud dawnys Llydewig.

Os nad oedd Llydaw yn denu fe ddaeth swyddog o'r Urdd i ddangos rhagoriaethau wythnos yn Llangran-nog iddynt. Yn dilyn hynny fe ddaeth Eifion Glyn i roi noson o Olympods a oedd yn gyfuniad o gemau a ffug eisteddfod.

Am y pythefnos cyn hanner tymor Ann Elfryn oedd yno i'n helpu gyda'r cystadlaethau celf a chreffft ar gyfer eisteddfod yr Urdd.

Mr Dafydd Thomas oedd yn rhoi sgwrs am Ynys Enlli ar nos Fercher, 25 Chwefror.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG

Pant Tirlon, Llanrug

Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

DRAENOG

Beth wnaech chi â chath sy'n cario, na nid llygod i'r tŷ, ond oriauwr werthfawr!

Daeth i'r tŷ un pnawn a gollwng oriauwr wrth draed ei meistres. Dangoswyd yr oriauwr i'r cymdogion gan holi a oedd rhywun wedi ei cholli.

'Fi pia hi,' meddai'r wraig drws nesa, 'Ond nid wyf wedi ei cholli, rwyf wedi ei chadw'n daclus ar y bwrdd yn y llofft'.

Roedd yr ôl pawenau yn achwyn fod yr hen gath wedi dringo drwy'r ffenest a chymryd yr oriauwr. Trannoeth roedd yn eistedd ar sil y ffenest yn disgwyl iddi gael ei hagar — efallai ei bod wedi ffansio rhywbeth arall i'w meistres!



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

GERDDI GLASCOED
(Ger Capel Glascoed)
PENISARWAUN

I'ch gardd
fod ar ei orau
galwch heibio
neu ffoniwch

870453

CABS LLANRUG



C'fon 675951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos



**J.M.
JONES
A'I FEIBION**

**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn:

**C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)**

Gwesty
Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

Stori gan Ifan Glyn ar gyfer Eisteddfod Ardal Waunfawr Y Creadur Lliwgar

Codais ar fore dydd Sadwrn yn wên o glust i glust, ro'n i'n mynd i barti pen-blwydd Dewi fy ffrind gorau am dri o'r gloch. Yna darllenais lyfr am bêl-droed. Daeth mam i mewn i'r ystafell.

'Mae Dad wedi cael galwad ffôn neithiwr,' meddai mam.

'Pwy oedd ar y ffôn?' gofynais.

Pennaeth BBC yn gofyn wrtho i fynd i America,' meddai mam.

Ar ôl cael fy mrecwast fe es i'r ystafell fyw i edrych ar y teledu, roedd na gartwn Tom a Jerry.

Daeth mam i mewn a dweud, 'Rydwi i eisiau gweld y newyddion.'

'O . . . nd rydw i eisiau Tom a Jerry,' dywedais.

'Na, chei di ddim gweld y sbwriel Tom a Jerry.'

Yna fe es i chwarae rygbi. Ro'n i'n dychmygu mai fi oedd Robat Jones, ac fod Cymru yn chwarae yn erbyn Ffrainc. Yna galwodd mam fod cinio'n barod.

'Iawn mam.'

Roedd na sglodion ac wy i ginio.

'Faint o'r gloch yw hi?' gofynais.

'Pum munud wedi dau,' meddai mam.

'Ga'i fynd i'r parti oherwydd fod tŷ Dewi yn bell yn y wlad?'

'Wel fe gei di ar un amod — dwyt ti dim yn cael mynd ar dy feic newydd sbon danlli.'

'Iawn mam.'

Yna dechreuais gerdded. Ar ôl cyrraedd y ffyrdd gwledig gwelais anifail tebyg i fwnci. Roedd o'n anifail lliwgar iawn. Roedd y lliwiau'n toddi i mewn i'w gilydd.

Yna rheddodd y creadur at goeden a dringodd i fyny'r goeden.

Dywedodd y creadur, 'Fy enw yw Samdalid o Safodres — Clodo pona Sada.'

'Mae gen ti enw hir iawn iawn, fy enw i yw Ifan.'

'Fe gei di fy ngalw'n Sam os wyt ti eisiau. Wyt ti eisiau dod dan y ddaear i weld ein byd ni?'

'Iawn,' dywedais.

'Mae na griw ohonyn ni cofia. Rydyn ni'n gwneud modelau o bob math o bethau. Mae na frenin yno o'r enw Dewswlid-Ardachrffis naclidor asanidoji. Fe gei di ei alw o yn Dews.'

Yna gwelais ddrws. 'Mae'r drws yma'n fawr, fawr i mi ond yn normal i ti. Beth ydych chi'n galw'r math o anifeiliaid fel ti Sam?'

'Ezixdax,' dywedodd Sam.

Yna agorodd Sam y drws a gwelais nifer o ezzixdax ac un yn fwy na'r lleill.

'Pwy yw'r un mawr na?' gofynai wrth Sam.

'Y frenin yw hwnna,' dywedodd Sam.

Yna aeth Sam at y frenin a dweud, 'Eich mawrhydi, fe welais fachgen bach, rydw i wedi dod a fe yma, syr.'

ç'Tyrd a fe ataf fi i mi gael siarad hefo'r bachgen.'

Yna cerddais ato a penlinio o'i flaen.

'Beth yw dy enw?' gofynodd Dews.

'Ifan yw fy enw,' dywedais.

Roedd gan Dews goron aur ac arian.

'Wyt ti eisiau gweld ein modelau a'n lluniau?'

'Iawn syr,' dywedais.

Yn gyntaf fe es i weld y modelau.

Roedd na dri ezixdax yn gwneud y model a tri'n peintio'r modelau.

'Wyt ti eisiau iddyn nhw wneud model ohono ti Ifan?' gofynodd y frenin.

'Iawn, syr.'

Yna dechreuodd y tri wneud model ohonof. Roeddynt yn defnyddio rhyw fath o glai. Ar ôl gorffen adeiladu'r model daeth tri ezixdax arall i'w beintio.

'Rydyn ni wedi gorffen gwneud y model,' meddai'r chwe ezixdax.

Yna aeth y frenin i ddangos i'r arlunwyr. Gwnaeth yr arlunwyr lun ohonof. Yna gofynais wrth y frenin os ga'i ganiatâd i fynd a Sam adref. Yna daeth distawrwydd llethol dros y lle.

'Wel,' meddai Dews, 'O'r gorau ar un amod — dwyt ti ddim yn cael ei gadw mewn cawell.'

'Iawn, Syr. Rydw i yn mynd hefo Sam nawr,' dywedais.

Ar ôl cyrraedd adref fe es i'r gwely.

Yn y bore fe es i at Dad roedd o wedi cyrraedd adref tua hanner nos neithiwr. Gofynais wrtho am fy anrheg.

'Fe a'i nôl o rŵan,' dywedodd Dad.

Model o ezixdax oedd y tegan. Ond roedd hynny'n amosib.

'Dad beth yw hanes hwn Dad?' gofynais.

'Anifail sydd yn byw yn America yw e,' meddai Dad. 'Dydi e ddim yn gallu byw yng Nghymru oherwydd ei bod yn wlad rhy oer. Ond weithiau mae nhw'n byw yng nghrombil y ddaear. Mae nhw'n dod allan unwaith bob blwyddyn,' meddai Dad.

'Dad dewch i weld beth sydd yn cysgu yn fy ngwely i.'

Daeth Dad i'r ystafell a gweld Sam yn cysgu'n braf yn fy ngwely. Yna dywedais yr holl hanes wrth Dad a Mam.

IFAN GLYN, SAFON 2

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys ar 3 Chwefror gyda Mrs Eileen Hughes yn llywyddu. Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Miss Jean Moeller yn dangos sleidiau gwyliau blodau Glyn Ebwy, Lerpwl a'r Alban. Ar ddiwedd y noson cafwyd cwis ar y Beibl a'r enillydd oedd Mrs Eileen Hughes. Diolwchwyd i Miss Moeller gan Mrs Pat Hughes. Gwesteion y te oedd Mrs Beryl Griffith a Mrs Einir Williams.

Clwb Elidir: Cafwyd cyfarfod ar 9 Chwefror dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones. Croesawyd aelod newydd i'r Clwb, sef Mrs Olive Edwards. Roeddem i gyd yn falch o weld yr ysgrifennydd, Mrs Jennie E. Williams, yn ôl yn ein plith wedi iddi dderbyn triniaeth yn yr ysbyty. Gwesteion y te oedd Mrs Aileen M. Jones, Mrs Janet Bingham a Miss Eileen M. Williams. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Aileen M. Jones a'r enillydd oedd Mrs Hannah J. Thomas.

GWELL RADIO CYMRU

Mae gobaith y bydd pobol cylch Llanberis a Deiniolen yn gallu clywed rhaglenni Radio Cymru yn fwy clir cyn diwedd mis Mawrth. Bydd trosglwyddydd VHF newydd yn gwasanaethu'r ardal erbyn hynny. Dyma newydd da i bawb ohonom sydd wedi hen arfer â gorfod clustfeinio i ddeall beth sy gan Dei Tomos i'w ddweud yn y bore, ac sy'n cael trafferth i wahaniaethu rhwng canu Beganïfs a Hogia'r Wyddfa gan mor aneglur yw'r derbyniad ar adegau. Bydd gwell derbyniad hefyd wrth gwrs i'r gorsafoedd eraill ar VHF, yn cynnwys gwasanaeth Radio 1, 2, 3, 4 a 5 y BBC.

MODURDY PLAS BACH

CAEATHRO

Ffôn: C'fon 672072

Gwerthu, Trwsio

Trin Cyrff

H.P. ar gael

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang o
Welyau Sengl a Dwbl.
Dewis eang o '3 Piece Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'
Gwaith Contract.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

WAUNFAWR 650291

SIOP

Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



CANOLFAN
GARDDIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 650721

Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed

Meinciau Concridd a Phren
Planters Concridd a Phren
Corachod Concridd

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Diolch: Dymuna Sioned Owen, Cefn Cynrig ddiolch o galon i'w holl gyfeillion a pherthnasau am eu anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Ionawr 4.

Llongyfarchiadau i Aled Griffith, Llwyn Eithin, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed. ar Fawrth 26. Llongyfarchwn hefyd Robin Warrington, Wern Bach, ar ddathlu ei ben-blwydd yntau yn 18 oed ar Chwefror 24.

Derbyn Anrhydedd: Llongyfarchwn Hari Hughes, Y Rhyl, ar dderbyn yr M.B.E. yn rhestr anrhydeddau y flwyddyn newydd. Derbyniodd Hari yr anrhydedd am ei waith gyda'r *Firemen Benevolent Fund* mewn arwisiad yn Llundain ar Chwefror 23.

Cydyndeimlo: Yn ddiweddar bu farw Mr Ifan Humphreys, Tan y Ffordd. Estynnwn ein cydyndeimlad a'i weddw Ruth Humphreys, ei ferch Joyce Pugh, a'r teulu yn eu profedigaeth.

Y Gymdeithas Lenyddol: Nos Fawrth, Chwefror 16, y Parchg Gareth Maelor oedd yn sgwrsio a'r aelodau a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn am hanesion oedd wedi dod i'r amlwg wrth iddo hel ei achau. Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan Llinos Williams, Hafod.

Bydd y Gymdeithas yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda swper yn Nhŷ Golchi ar Fawrth 16. Dylai aelodau sydd am fynd i'r swper roi eu henwau i Goronwy Jones, Glan Gors, mor fuan ag sydd modd.

Cydyndeimlo: Ddydd Llun, Chwefror 22, yn ei gartref Bro Dirion, bu farw Mr Frank Williams. Roedd Mr Williams yn 74 mlwydd oed. Estynnir pob cydyndeimlad â Mrs Dorothy Williams a'r teulu yn eu profedigaeth.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs John Williams, Tyddyn Difyr, ar enedigaeth merch fach yn ddiweddar.

Newyddion o'r Ysgol: Nos Lun, Chwefror 1, cynhaliwyd noson ddifyr iawn, wedi ei threfnu gan y Gymdeithas Rhieni-Athrawon, gyda Mr Tony Schavone, Ymgynghorydd Dyniaethau Gwynedd, yn trafod dulliau modern o astudio Hanes. Teimlad nifer o'r rhieni oedd — gresyn na fyddai gwersi hanes eu cyfnod hwy wedi bod mor fywiog a difyr. Diolchwyd i Mr Schavone gan Mrs Sian Robinson, cadeirydd y Gymdeithas.

Gweithgaredd nesaf y Gymdeithas fydd ein Ffair Wanwyn, a hynny ar nos Wener, Mawrth 26. Bydd stondinau cacennau, llyfrau, hufen iâ a gemau, ac fe dynnir y gwobrau raffl. Bydd mwy o fanylion yn nes at y dyddiad.

Yn ystod y mis bu'r rhieni yn ymweld â'r Ysgol i weld gwaith eu plant a chael sgwrs am eu datblygiad.

Ar Fawrth 2 cafwyd cyngerdd a phaned i ddathlu Gŵyl Ddewi gyda aelodau Clwb Bro Bethel.

Fel rhan o'u cywaith ar adeiladu mae plant blwyddyn 3 a 4 yn ymweld ag adran adeiladu Coleg Technegol Gwynedd ym Mangor i gael profiad sut i gymysgu sment a gosod brics.

Yr Urdd: Cyfnod yr eisteddfodau yw'r tymor yma ac mae nifer fawr o aelodau'r gangen yn brysyr iawn yn paratoi at y cystadlu.

Cynhelir Noson Goffi yn Neuadd yr Ysgol Gynradd ar nos Wener, Mawrth 5, gydag adloniant gan aelodau'r gangen. Dewch draw i gefnogi'r plant. Pris tocyn fydd 50c ar gael gan aelodau'r Urdd.

Enillwyr Clwb 200 Neuadd Goffa Bethel am fis Ionawr — £20: Alwyn Jones, Bro Dawel, Rhos-lan (148); £10: Wyn Morris, Fachell (136); £5: Elizabeth Rowlands, Almira (141); Mair Jones, Glan Gors (43); Kathleen Bell, Saron (220); Lona Jones, 6 Stad Eryri (78); Eiriona Williams, 7 Bro Rhos (208); Susan Owen, Llys Gwynedd (147); Betty Farrer, 7 Rhos-lan (154); Margaret Bardsley, Windy Corner (217).

Enillwyr Clwb 100 Ysgol Gynradd Bethel am fis Chwefror — £20: Janet E. Jones, 10 Y Ddôl; £15: Bethan Tomos, Tŷ'n Llain, Y Waunfawr; £10: Doris Williams, 12 Ffordd Pandi, Caernarfon; £5: Nina Jones, 10 Trem y Foel, Y Felinheli; £3: Gwyn Edwards, 5 Tai Cae Rhos, Seion. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yn Neuadd yr Ysgol Gynradd dan lywyddiaeth Mrs Rhian Hughes. Llongyfarchwyd Aled, mab Mrs Glenys Griffiths ar ddathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ddiwedd y mis a Mrs Gwyneth Williams ar enedigaeth ŵyr. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Alys Jones sydd wedi cael llawdriniaeth yn yr ysbyty. Croesawyd hefyd ddwy aelod newydd sydd wedi symud i'r

ardal yn ddiweddar.

Croesawyd Siân Hughes, un o aelodau'r gangen atom i sôn am ei gwaith fel nyrs yn y feddygfa ac ein hannog i 'Gadw'n Iach'. Diolchwyd iddi ar ran y gangen gan Mrs Eryl Roberts. Y gwestwragedd oedd Mrs Llinos Hughes, Mrs Rita Williams a Mrs Delyth Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Ann Lewis a chystadleuaeth y mis gan Mrs Nora Parry.

Dethlir Gŵyl Ddewi y gangen yn Neuadd yr Ysgol Gynradd ar nos Fercher, Mawrth 10, am 7.30 o'r gloch. Y gŵr gwadd fydd Mr Maldwyn Parry, Pen-y-groes, a pharatoir lluniaeth ysgafn ar gyfer yr aelodau. Pris y noson fydd £1.50 a phawb i ddod â plât, cwpan a soser.

Cantorion Elidir: Mae dyddiad y perfformiad o'r 'Croeshoeliad' — Ebrill 7, yng Nghapel Engedi, Caernarfon, am 7.30 o'r gloch, gyda John Eifion (Tenor) ac Iwan Parry (Bariton), Phillip Barnett (Organ) o dan arweiniad Robin Jones — yn prysyr agosáu ac fe fydd nifer yr ymarferiadau yn amlhau yn ystod y mis. Cafwyd ymarferion ym Mhentraeth ac ym Methel yn ystod y mis.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol yn ystod yr ymarfer ar nos lau, 18 Chwefror, ac o fewn pum munud o amser fe ail-etholwyd y Swyddogion i gyd am flwyddyn arall. Gresyn na fyddai pob pwyllgor a chyfarfodydd blynnyddol mor fyr!

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Erw Wen.
Ffôn: C'fon. 3536

Gwasanaethau Capel y Gymuned: Disgwylir y pregethwyr canlynol yn ystod y cyfnod nesaf, am 10 y bore — Mawrth 7: Parch Ronald Williams, Salem, Caernarfon; 14: Parch W. R. Williams; 21: Parch Trefor Williams, Caernarfon; 28: Parch W. R. Williams; Ebrill 4: Parch W. R. Williams; 11 (Sul y Pasg): Parch John Owen, Bethesda.

Gwarchod Cymdogaeth: Yn sgîl cyfarfod cyhoeddus, a gynhaliwyd yn y Festri, penderfynwyd sefydlu Gwarchod Cymdogaeth yn y pentref. Derbyniwyd cynnig Deiniol Huws, Tŷ Mawr, i weithredu fel cysylltydd â'r heddlu. Cytunwyd hefyd i Albert Jones, Erw Wen a Ronald Moore, Bwthyn Eryl, weithio fel cysylltwyr lleol.

Pwyllgor Cae Chwarae: Yn y cyfarfod diwethaf cytunodd y canlynol i weithredu fel swyddogion y pwyllgor — Cadeirydd: Clive Jones Hafan; Ysgrifennydd: Alun Roberts, Erw Wen; Trysorydd: Wally Evans, Erw Wen. Enillwyd Tynfa y Pentref am fis Chwefror oedd — £40: Heulwen Atkinson, Cefn Gof; £25: Harry Burke, Arosfa; £15: Peris Thomas, 4 Bryn y Gof. Gellir ymuno â'r Tynfa trwy gysylltu â swyddog neu gasglwr lleol. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod ar y dyddedd nos Lun o bob mis am 8 o'r gloch yn Nhafarn Bryngwna.

Cyngor Cymuned: Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr yn Antur Waunfar ar nos Lun, 22 Chwefror. Nid oedd ymateb pellach ynglŷn â gwella'r palmant i'r garej. Oherwydd agwedd negyddol Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Arfon ynglŷn â chwestiynau am lanweithdra ac ysbwriel, gan gynnwys baw cŵn, a lleoli biniau sbwriel ychwanegol yn y pentref, penderfynwyd anfon cwyn i'r Prif Weithredwr. Ymysg rhoddion ariannol rhoed £50 i Eco'r Wyddfa; £25 i Eisteddfod yr Urdd a phrynu pedwar arwydd 'Gwarchod Cymdogaeth' i Gaeathro. Bydd cyfarfod gyda swyddog o Adran Gynllunio'r Sir ynglŷn â'r posibilrwydd o wella lloches teithwyr bws y pentref. Gofynir i Gyngor Arfonsebonio natur y datblygiad posibl rhwng 'Homes' a'r ddwy garej breifat. Bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned cadw llygaid ar unrhyw ddatblygiad preifat ar safle hen ysbyty Pencefn ar y lôn i'r Waunfawr.

DRAENOG



Wedi gweld arwydd newydd yng ngorsaf Llanfairpwll ag arno ffurf ffonetig o'r enw ar gyfer ymwelwyr Saesneg eu hiaith, awgrymaf y gallem ddangos ein croeso i ymwelwyr ein bro ninnau trwy ddangos yr arwyddion hyn:

Bet-oose Gar-mun
Wine-vour
Kai-a-throw
Lan-ree-g
Koom-u-glow
Lan-bay-reese
Nant Pay-reese
Br-in-rave-ale
Dine-yo-lane
Done-ore-wig
Pen-ease-are-wine
Beth-ale

Trefniadau Blodau Sych
a Ffres yn ôl eich gofyn
Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

- ★ Trefniadau blodau arbennig ar gyfer **SUL Y MAMAU**
- ★ Gwasanaeth danfon ym mro'r Eco
- ★ Archebwch rŵan!



Galwch neu ffoniwch
870605
am fanylion

Bistro
43 - 45
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871278



LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Merched y Wawr: Yng nghyfarfod mis Chwefror daeth y darlledwr Mr John Roberts Williams o Lanrug at aelodau'r gangen i drafod 'Y pethau sy'n ein diddori'. Cyfeiriodd at ddylanwadau arbennig dyddiau ei blentyndod yn Llangybi. Treuliodd y noson yn trafod tair emyn, tri englyn a thair cerdd a hynny yn ei ddull diddorol ac unigryw ei hun. Bethanne Williams gyflwynodd y diolchiadau iddo.

Adroddodd Mrs Lovatt fod y bwrth gwerthu a drefnwyd yn Ysbyty Gwynedd gan Bwyllgor yr Anabl wedi gwneud elw o dros £600. Diolchodd i bawb a gyfrannodd.

Gwesteion y te oedd Joan Griffith, Ann Lloyd Griffith a Margaret Jones a diolchodd Meryl Green iddynt. Enillwyd y raffl gan Pat Jones.

Ar y 9fed o Fawrth byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi yn y Bristro yn Llanberis. Pris y cinio fydd £7.50. Nid oes bws wedi ei drefnu ar gyfer y noson ond mae nifer o'r aelodau yn fodlon cynnig cludiant i'r rhai nad oes ganddynt geir. Enwau ar gyfer y cinio a chludiant i Gwenda Roberts, Llefior, Ffordd yr Orsaf, Llanrug, os gwelwch yn dda.

Plaid Cymru: Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen yn y Sefydliad Coffa ar nos Fercher, Mawrth 10, pan fydd Iwan Robers yn sôn am hanes lleol.

Ar nos Fercher, Mawrth 17, bydd Cwmni Bara Caws yn perfformio 'Chwilen yn fy Mhen' yn neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30 o'r gloch. Mae tocynnau ar werth gan aelodau'r pwyllgor neu ffoniwch 650200 os am fanylion pellach.

Llongyfarchwn Delyth Tomos, Tanycae, Tan-y-coed ar ennill gradd y Brifysgol Agored.

Llongyfarchiadau hefyd i Lowri Angharad Roberts, Bedw Gwynion, ar ennill ysgoloriaeth ar gyfer astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth yn yr hydref.

Dymunwn adferiad buan i Nan Humphreys, Pant y Bryngwyn, wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac i aelodau eraill sy'n cwyno yn eu cartrefi.

Bydd y pwyllgor yn trefnu Sêl Cist Car ym mis Ebrill.

Mae croeso i aelodau a chyfeillion i gyfarfodydd y gangen.

Ysgol Gynradd Llanrug: Enillwyd Clwb Cant am fis Chwefror — 1, Sharon Griffith, 35 Bro Rhyddallt; 2, Shaaron Blanchard, Dolwen; 3, Derec Owen, 26 Bro Rhyddallt; 4, Mai Davies, Bod Awel; 5, Gwynfa Pritchard, Cefn Llwyd.

Aeth Blwyddyn 1 a 2 ar ymweliad â Chaer Segontium yn ddiweddar. Maent yn sôn am y Rhufeiniaid fel rhan o'u thema y tymor hwn a braf

LLANRUG V.T.C.



A oes yna rywun all roi gwybodaeth i'r Eco am y llun uchod? Mae'n dangos nifer o ddynion mewn lifrau milwrol, a'r arwydd 'LLANRUG V.T.C.' i'w weld yn glir o'u blaen. Mae'r dyddiad 1916 hefyd i'w weld. Beth oedd ystyr V.T.C.? Ydych chi'n adnabod rhywun yn y llun?

oedd i'r plant gael gweld eu holion yn eu hardal.

Daeth Nyrs Parry at y dosbarth derbyn i roi sgwrs fach ar lanweithdra a sut i fwyta'n iach, gan eu bod yn sôn amdanynt eu hunain, 'Myfi Fy Hun' y tymor yma. Diolch i Nyrs am ei pharodrwydd i ymuno yng ngweithgareddau'r ysgol bob amser.

Os dewch draw i'r ysgol o dro i dro fe welwch fod peth newid wedi digwydd yn y cynteddau. Rydym wedi bod yn ddigon lwcus i gael yr arlunydd Catrin Williams i gydweithio â'r plant i beintio murluniau o chwedlau'r Mabinogi a Llinell Amser. Maent yn lliwgar a chwaethus iawn.

Llongyfarchiadau i Gwion Iwan,

Blwyddyn 6, ar ennill cystadleuaeth ar y rhaglen deledu 'Cracabant'. Daeth criw o'r rhaglen draw i'r ysgol i gyflwyno'r wobr i Gwion ac roedd y pecyn yn dderbyniol dros ben ganddo, trugareddau o bob math.

Yr Urdd: Daeth cyfnod eisteddfodau'r Urdd unwaith eto. Pob lwc i bawb o'r plant sy'n cystadlu.

Cafwyd noson ddiddorol ar Chwefror 22, gan y naturiaethwr Duncan Brown o'r Waunfawr. Dangosodd sleidiau o'r 'Môr i'r Mynydd' iddynt.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

DIWRNOD Y SEINDORF



Enillwyr cystadlaethau mewnol y Seindorf.

Seindorf: Ddydd Sadwrn, 20 Chwefror, cynhaliwyd cystadleuaeth fewnol flynyddol y seindorf yn yr Ysgol Gynradd. Y farn gyffredinol oedd mai hon oedd y gystadleuaeth fwyaf llwyddiannus ers rhai blynyddoedd. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at y llwyddiant yma. Dyma'r canlyniadau —

Alaw araf dan 10: 1, Gwenan Mared; 2, Donna Louise; 3, Dafydd Glyn.

Alaw araf 10-12: 1, Dewi Griffiths; 2, Anna Humphries; 3, Gerallt Hughes.

Alaw araf 12-14: 1, Dilwyn Lloyd Jones; 2, Luned Jones; 3, Sion Pyrs Williams.

Alaw araf dros 18: 1, O. Glyn Hughes; 2, James Jones; 3, Gareth Hughes.

Deuawd dan 18: 1, Dewi Griffiths a Luned Jones.

Deuawd dros 18: 1, Gareth Hughes a Glyn Hughes; 2, Terry Lloyd Jones ac Alwyn Jones; 3, Dyfed Jones a Gwyrfa Williams.

'Alr Varie' dros 18: 1, James Jones; 2, Terry Lloyd Jones;

3, Dyfed Jones. **Pedwarawd dan 16:** 1, Dewi, Dylan, Sion a Mathew.

Pedwarawd dros 16 (agored): 1, Frank, John, Gareth, Luned (cyfeillydd Mrs McMahon); 2, Dyfed, Gareth, Reg, Frank; 3, Reg, Jim, Glyn, Arwyn. **Perfformiad unigol gorau y dydd:** Glyn Hughes.

Y beirniad eleni oedd Mr William Skelton o Stoke-on-Trent. Diolch i bawb a gynorthwyodd ar y dydd.

Dymuniadau gorau i'r Seindorf a fydd yn cystadlu yn y Gystadleuaeth Rhanbarthol yn Theatr Arcadia, Llandudno, ar ddydd Sadwrn, 6 Mawrth.

Bydd y pwyllgor nesaf yn cael ei gynnal ar nos lau, 4 Mawrth, yn Neuadd y Seindorf am 7 o'r gloch.

Diolch: Dymuna Ann Williams a'r teulu, 9 Talybont, Llanrug, ddiolch i bawb am bob arwydd tu ag ydy ymdeimlad a ddangoswyd gan atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain.

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi

★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)

★Gwres canolog llawn

★Sustem ddiogelu rhag tân

★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw

★Sustem alw nyrs

★Yn Cwrdd â phob angen personol

★Lle bwyta mawr

★Aros cyfnod hir/byr

★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol

★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.

★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg

★Coginio cartefol

★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg

★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Llongyfarchiadau i Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol ar ei dyweddïad ag Alun Hughes, mab Olwen a Tommy Hughes, Rhiwlas, Porth Amlwch.

Dymuna Olwen ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniasant.

Y Gymdeithas Undebol: Ddechrau lonawr bu cyfeillion y Gymdeithas yn cynnal Cyfarfod Gweddi a chymrwed rhan gan aelodau'r Gymdeithas. Paratowyd y gwasanaeth gan Mrs Katie Lloyd Hughes.

Nos lau, 21 Ionwr, daeth cwmni Llanberis atom i'n difyru gyda Noson Lawen. Er i'r tywydd fod yn stormus cafwyd hwyli eithriadol a phawb wedi mwynhau eu hunain. Llywyddwyd y noson gan Glyn Tomos. Ar nos lau, 4 Chwefror, daeth Cwmni Drama Berea, Bangor, i'n diddori drwy berfformio dwy ddrama gomedi 'Gormod o Ddewis' a 'Slipars a Lloynydd' a chafwyd ymateb hwyliog gan y gynulleidfa i'r perfformiadau. Llywydd y noson oedd Mrs K. Lloyd Hughes ac fe ddiolchwyd i'r cwmni gan Mr Rennell Williams. Nos lau, 18 Chwefror, o dan lywyddiaeth Mrs Irene Morris, cawsom y cyfle i wrando ar Miss Alice E. Williams, Caernarfon (Brynrefail gynt) yn sôn am ei thaith i Hong Kong, Signapore ac Awstralia ac am y bobl ddiddorol a gyfaru a hwy. Cafwyd noson ddifur iawn ac addawodd Miss Williams y dychwelai y tymor nesaf i gwblhau'r hanes. Diolchwyd iddi gan Mrs Megan P. Morris.

Oherwydd fod gwaith adnewyddu yn cel ei wneud i'r Ganolfan penderfynwyd gohirio'r cyfarfod 'Cawl a Chân' a oedd i'w gynnal ar 4 Mawrth.

Diolch i Mrs Alice Griffiths am ei hadroddiad llawn o weithgareddau'r Gymdeithas a diolch iddi, a gweddill aelodau'r pwyllgor, am raglen ddiddorol ac amrywiol drwy gydol y gaeaf.

Diolch: Dymuna Mrs Jean Griffiths, Ystum Werddon, Llangristiolus, ddiolch o galon i'w ffrindiau yn Ninorwig am eu caredigrwydd tuag ati tra bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Teyrnged: Diolch i Miss Ellen Wyn Jones, Tŷ'n Fawnog, am y deyrnged ganlynol i'r ddiweddar Mrs Eileen Thomas:

Dull yr ardal hon yn aml wrth

glodfori person yw ei alw ef neu hi yn 'hen hogyn iawn' neu 'hen hogan iawn', a phan ddaeth y newydd trist am farwolaeth Eileen Thomas dyna'r geiriau a glywyd ar wefusau sawl un, 'hen hogan iawn oedd hi'. Yr oedd hynny yn ddigon i ddweud cyfrolau amdani.

Wedi iddi ymgartrefu ym Mwlch Gwynt ar achlysur ei phriodas â John fe ymaelododd yn Sardis ac fe fu'n aelod gwerthfawr gydol y blynyddoedd yn barod ei chymwynas, yn garedig, yn gyfeillgar â phawb fel ei gilydd, yn ffyddlon i gyfarfodydd yr eglwys a'r Ysgol Sul, ac ni wrthodai unrhyw waith y gofynnid iddi ei wneud. Bu'n drysorydd Cronfa'r Ddyled am ugain mlynedd gan wneud y gwaith gyda graen.

Fel arwydd o gydymdeimlad â John a'r plant, ac fel amlygiad o barch iddi, roedd capel Sardis yn orlawn ar ddydd yr angladd ar 18fed Ionawr. Arweinwyd y gwasanaeth gan ei gweinidog, y Parchg Olaf Davies, a ddewisodd rhan o Salm 84 fel testun ei deyrnged i Eileen, gan gyfeirio at gywirdeb ei ffyrdd, ei ffyddlondeb a'i ffydd. Yn ei gynorthwyo yr oedd y Parchedigion Wayne Roberts ac Ifor L. Williams.

Bu Eileen yn un o ddosbarthwyr yr Eco er y cychwyn ac er iddi symud i Rydfadog i fyw fe barhâi a'r gwaith o'i rannu yn Ninorwig. 'Hen hogan iawn oedd hi.'

Cyngor Eglwys Dinorwig: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r Cyngor ar nos Wener, 22 Ionawr, o dan gadeiryddiaeth y Deon Gwlad, y Parchg Ganon Richard Owen. Yn bresennol roedd cynrychiolwyr o Eglwys St. Mair a Chapel Sardis. Cytunwyd i gynnal gwasanaeth undebol yng Nghapel Sardis ar ddydd Sul, 16 Mai, am 2 o'r gloch, sef dechrau wythnos Cymorth Cristnogol. Bydd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg Olaf Davies gyda'r Parchg Richard Owen yn cynorthwyo. Defnyddir ffurf gwasanaeth 'Undeb Mewn Gwasanaeth' sydd wei ei baratoi i bwrpas gwasanaethau undeb yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol. Am y tro cyntaf erioed fe drefnir casgliad ar y cyd rhwng yr enwadau tuag at waith Cymorth Cristnogol ac fe ddosberthir amlenni prwpasol ar y Sul cyntaf wedi'r Pasg i'w dychwelyd ar y Sul 16 Mai.

Penderfynwyd anfon llythyr at swyddogion Capel Dinorwig i ofyn am eu cefnogaeth i'r gwasanaeth undebol ac i'r casgliad a wneir.

Brysiwch wella: Mae nifer o'r pentrefwyr heb fod yn mwynhau iechyd da yn ystod y mis diwethaf. Dymunwn wellhad llwyr a buan i bob un ohonoch

Eglwys St. Mair: A ninnau ar gychwyn tymor y Grawys ni fydd angen blodau ar yr allor hyd Sul y Pasg. Diolch i bawb am sicrhau bod blodau o'r safon gorau yn cael eu harddangos yn yr eglwys o Sul i Sul. Tro Mrs D. Williams, Bron Eilian, fydd glanhau'r eglwys yn ystod misoedd Mawrth ac Ebrill. Diolch ymlaen llaw iddi hi.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Yr Urdd — Adran Bentref: Ar nos Fawrth, Chwefror 2, mwynhaodd yr aelodau gêm o Chwilen. Nos Fercher, Chwefror 10, daeth Mr Len Jones o'r Groeslon i'r cyfarfod ac fe ddiolchodd Dion iddo am drefnu cwis mor ddiddorol. Nos Fawrth, Chwefror 16, oherwydd salwch methodd Mrs Ann Thomas fod yn bresennol. Diolchir iddi am roi gwybod mewn da bryd i alluogi Rhian drefnu gemau i'r plant. Diolchir i Dylan, Susan, Nia a Sioned am helpu i wneud noson ddifur i bawb.

Dyma restr o weddill y gweithgareddau —

Chwefror 23: Coluro gyda myfyrwyr o Fangor.

Mawrth 2: Dawnsio Gwerin gyda Mrs Judith Harding.

Mawrth 9: Gêm gyda Mrs Rhian Roberts.

Mawrth 16: Gwaith Llaw gyda Mrs Gwen Roberts, Weirglodd Goch.

Mawrth 23: Gwahanol gemau gan ddefnyddio adnoddau'r Clwb leuenctid.

Mawrth 30: Taith Gerdded leol yng ngofal Mr Leslie Larsen ac yna yn ôl i Neuadd yr Ysgol i fwynhau cŵn poeth ac oren.

Dymunir pob llwyddiant i'r aelodau canlynol yn Eisteddfodau Cylch yr Urdd — Vincent Thomas, Iwan Williams, Eirian Eifion a Cenin Eifion. Pob lwc.

Gwellhad: Dymunir adferiad iechyd buan i Henry Jones, Bryntirion, wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwn ein cofion anwylaf at bawb arall yn y pentref sy'n sâl.

Gair o Gydymdeimlad: Ionawr 30, yn ei gartref Llys Myfyr wedi cystudd hir bu farw Mr Griffith Richard Williams, gŵr annwyl Mrs Bessie Williams a thad gofalus Maldwyn ac Ella a thad-yng-nghyfraith Christine a Derwyn, taid hoffus Eleri a Siôn Llŷr a brawd tyner Elsie a Jennie. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â chwi fel teulu.

Dymuna Bessie, Maldwyn ac Ella ddiolch yn ddiffuant i berthnasau, cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl. Diolchir yn arbennig am y rhoddion anrhydeddus a dderbyniwyd er cof am Griff tuag at Feddygfa Llanberis a nyrsus y gymuned.

Anfonir ein cydymdeimlad dyfnaf

at Mr a Mrs David Roberts, Bryntirion, ar farwolaeth ei fam yn y Bontnewydd.

Yn Buckley, Clwyd, bu farw tad Mr Mike Lamb, Bryn Eglwys. Ein cydymdeimlad dwysaf â chwithau Dorothy, Mike, Darren a Glen.

Dyweddïad: Llongyfarchiadau a phob bendith i Dylan Pierce Williams, Bryn Rhydd, ar achlysur ei ddyweddïad â Catrin.

Pwyllgor Neuadd: Mewn pwyllgor yn yr Ystafell Gymuned, tynnwyd Clwb Cant Ionawr a'r enillwyr oedd Carol Porter, David Phillips ac Elen Lewis. Gobeithir gwerthu tocynnau raffl yn ystod yr wythnosau nesaf. Dymunir eich atgoffa am adnewyddu tâl aelodaeth Clwb Cant am 1993 (£6 y flwyddyn neu 50c y mis). Diolchir i bob aelod am eu cyfraniad yn ystod 1992 ac am gefnogi'r amrywiol weithgareddau. Hyderir y cawn yr un ffyddlondeb eto eleni.

Cyfeillion yr Ysgol: Eisoes mae rhai o'r offerynnau cerdd wedi cyrraedd yr Ysgol yn dilyn ymdrechion y Cyfeillion o godi arian. Mae tocynnau raffl ar werth gan aelodau'r pwyllgor a chan y plant. Mae tocynnau ar gael yn yr Ysgol hefyd. Bydd y raffl yn cael ei thynnu yn y Ffair Lyfrau ar Fawrth 25, yn y Neuadd Gymuned.

Ysgol Gymuned Penisarwaun: Cafodd plant Bl. 6 gyfle i dreulio wythnos yng Nglynllifon yn ddiweddar ar gwrs iaith. Roedd golwg flinedig iawn ar bob un ohonynt yn dychwelyd i'r ysgol ar ddiwedd yr wythnos! Ymddengys fod pob un wedi cel budd o fynychu'r cwrs ac wedi mwynhau eu hunain yno.

Cywaith am y 'corff' sydd ar y gweill gan Bl. 3 a 4 ar hyn o bryd. Fel rhan o'r cywaith daeth Miss Peggy Owen i'r ysgol i roi sgwrs a dangos fideo i gyfleu i'r plant sut beth yw bod yn ddall, a sut mae'n rhaid i'r deillion ymdopi â hynny. Fel dilyniant fe aeth y plant ati i gasglu arian tuag at achos y deillion, y RNIB, ac ar ddiwedd y dydd roedd y swm anrhydeddus o £50 wedi ei gasglu.

Nos lau, Mawrth 30 am 6.30 p.m. cynhelir Ffair Lyfrau Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol gyda'r elw yn mynd i gronfa'r ysgol, ac fe fydd mwy na hynny yn digwydd ar y noson. Felly, beth am droi i mewn i gael gweld beth fydd ar y gweill? Croeso cynnes i bawb.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

GORSAF BETROL



BERAN


DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

CROESAIR MAWRTH



AR DRAWS

- Ceidwad yr ŵyn (6)
- Dwyreiniwyr Canol (8)
- Magwyd yr Iesu ar un Maria (4)
- 'Ladyn —' (1,5)
- Ai ffrwyth ai llysieuyn? (6)
- Dau yn unig oedd ynddi (3)
- Coedyn gwyn meddal (5)
- Yn creu un gyfan (4)
- Yn dilyn mellten (5)
- Dinas yn Fietnam (5)
- Gwych rhif 8 o Bwllheli (2,3)
- 'Rwy'n siwr o wneud (4)
- Meirion neu'r arfordir (5)
- 3600 curiad cloc (3)
- 'Atmosffêr, —' meddai'r gofodwr (3,3)
- 'Mynydd yr —' (6)
- Nid celwydd (4)
- yr aeth JRW i Fryngwran (1,7)
- Offeryn fel y ffidil (6)

I LAWR

- Blodau'r gwanwyn (6)
- Cyfnod o amser i wr mam (3,3)
- Yn y sbectol (4)
- (a 28) Cofia ddod acwl (6,1,3)
- Cath neu ynys (5)
- 'Llefaru' y gelwir ef erbyn hyn (5)
- Cyn codi cŵn Caer (4)
- Blynyddoedd lawer (3)
- Lle cyfleus (3)
- Hin (5)
- Yr 'o' mewn mor (5)
- Pentref y penwaig (5)
- Triog ar y ffordd? (3)
- Hyn cyn y rol (3)
- John Bwlch Llan, er enghraifft (7)
- Gwryw (3)
- Nerth esgyrn ei ben (6)
- Enwogyn am ei ymdrech (4)
- Ar lafar — arferai berchnogi (3,3)
- Aneirif lu ar y traeth (5)
- Ceir un ym Meddgelert (5)

28. Gweler 4 i lawr
30. Twll mewn mynydd (4)

ATEBION CROESAIR CHWEFROR



Mae'n amlwg fod y gwanwyn yn y tir gan i nifer helaeth ymgeisio'r tro hwn gyda 21 i law yn peri peth trafferth. Yn wir o dderbyn 'n', 'u' neu 'i' fel y llythyren olaf i'r ateb roedd pob ymgais ond un yn gywir ac, i fod yn onest, nid wyf i'n hollol siwr pa un o'r tri sy'n gywir. Felly, rhoddwyd yr ugain a throsodd cywir yn yr het a'r enw cyntaf a dynnwyd allan oedd eiddo **Alice M. Griffith, Tan-y-Bwlch, Dinorwig**. Llongyfarchiadau i Mrs Griffiths a beth am i'r cyfan ohonoch ymgeisio eto'r tro hwn gan anfon eich atebion i sylw Ifor G. Efans, Afon Goch, Deiniolen, **erbyn dydd Mawrth, 16eg Mawrth fan bellaf**. Bydd gwobr gwerth £5 i'r enillydd!

Dyddiadur y Mis

2 Mawrth. Llanberis: Cyfeillach Capel Jerwsalem am 2 o'r gloch.
Penisarwaun: Urdd — Dawnsio Gwerin.
3 Mercher. Waunfawr: Urdd — Cyngerdd yn y Ganolfan am 6.30.
4 Iau. Llanberis: Recordio Caniadaeth y Cysegr yn y Capel Coch am 7 o'r gloch.
5 Gwener. Bethel: Urdd — Noson Goffi yn Neuadd yr Ysgol.
Deiniolen: Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd. Cyfarfod yn Ebeneser am 2 o'r gloch. **Llanberis:** Dydd Gweddi'r Chwiorydd. Cyfarfod yn y Capel Coch am 2 o'r gloch.
9 Mawrth. Penisarwaun: Urdd — gemau. **Llanrug:** Merched y Wawr — Cinio Gŵyl Ddewi yn y Bristro, Llanberis.
10 Mercher. Bethel: Merched y Wawr — Dathlu Gŵyl Ddewi yn Neuadd yr Ysgol am 7.30 o'r gloch. **Llanrug:** Plaid Cymru — Iwan Roberts, 'Hanes Lleol'.

11 Iau. Llanrug: Noson Caws a Gwin o dan ofal yr Ysgol Feithrin ym Mhenybont am 8 o'r gloch.
12 Gwener. Deiniolen: Merched y Wawr — Swper Blynyddol.
15 Llun. Brynrefail: Sefydliad y Merched — Arddangos Blodau.
16 Mawrth. Penisarwaun: Urdd — Gwaith Llaw.
17 Mercher. Llanrug: Plaid Cymru — Cwmni Bara Caws yn cyflwyno 'Chwilen yn fy Mhen' yn Ysgol Brynrefail am 7.30.
22 Deiniolen: Y Gymdeithas Lenyddol — sgwrs gan R. Gwynn Davies, Waunfawr, 'Newid Gwaith'.
23 Mawrth. Penisarwaun: Urdd — gemau.
25 Iau. Penisarwaun: Ffair Lyfrau yn y Neuadd Gymuned am 6.30 o'r gloch.
26 Gwener. Bethel: Ffair Wanwyn Cymdeithas Rhieni/Athrawon. **Cwm-y-glo:** Tombola — Pwyllgor Rhieni/Athrawon am 7 o'r gloch.
30 Mawrth. Penisarwaun: Urdd — taith gerdded.

RHODDION

£5: Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig; Mrs Mair Eluned Owen, Bod Awen, Stryd Fawr, Llanberis; Mrs Bessie Williams, Llys Myfyr, Penisarwaun, er cof am y diweddar mr Griffith Richard Williams; Miss Marcia Thomas, Dolwerdd, 2 Preswylfa, Llanberis; Ann Williams, 9 Talybont, Llanrug.
£3: Mrs Pritchard, 9 Afon Rhos, Llanrug; Mr Joe Mackay, 4 Stryd Ceunant, Llanberis; Mrs Jean Griffiths, Ystum Werddon, Llangristiolus; Mr a Mrs Bill Owen, Noddfa, Stad Tref Eilian, Waunfawr.
£2.50: Dennis ac Iola Evans, 15 Stryd Fawr, Llanberis.
£2: Derfel Owen, 9 Stryd yr Wyddfa, Llanberis; Mrs Elizabeth Pitts, 53 Dôl Elidir, Llanberis; Mrs Linda Williams, Carling, Lôn Tŷ Du, Llanberis.

DRAENOG



Mae'n siŵr gen i bod cyfrifiadur sy'n deall y Gymraeg yn beth prin ar y naw. Dyna i chi BT yn rhoi bai ar y cyfrifiadur nad oedd modd cael bil Cymaeg i ni am dri mis arall. Ac mae'n debyg mai rhyw gyfrifiadur o'r Swyddfa Gymreig sy'n gyfrifol am anfon ffurflen at rieni Cymry bach ysgolion y fro yn dweud mai 'Other' yw 'Home Language' eu plant. A finnau wedi arfer meddwl mai'r Gymraeg oedd yr iaith a siaradwn ar yr aelwyd acw! Mae'n amlwg mai dwy iaith sydd i'w cael yng nghynteddoedd y Swyddfa Gymreig: y Saesneg a'r 'Other'.

A YDYCH YN BAROD I HELPUR ECO?

Rydym yn chwilio am bobl sy'n barod i roi rhywfaint o gymorth i'n ffotograffwyr. Gallwch helpu mewn dwy ffordd:

- Byddem yn falch o glywed gan unrhyw un sydd â phrofiad o ddatblygu a phrintio lluniau du a gwyn, ac sy'n barod i roi cymorth achlysurol â'r gwaith. Byddai hyn yn caniatáu ambell fis o seibiant haeddiannol i Gwyndaf Hughes.
- Er mwyn hwyluso'r drefn o dynnu lluniau i'r Eco mae'r pwyllgor llywio wedi cytuno i Brynu un neu ddau o gamerau ychwanegol. Y bwriad yw eu lleoli ym Mhentrefi'r fro, yn gyfleus i chwi eu defnyddio pan fo angen. Os byddech yn barod i gymryd gofal o gamera, a thynnu ambell i lun os oes angen, cysylltwch â Gwyndaf neu ag un o'r golygyddion. (Mae'r rhifau perthnasol ar dudalen 2).

BARGEN Y FLWYDDYN (neu Bargaen am Flwyddyn)

Blwyddyn o rifynnau'r Eco am bris 10 (£2.50)

Am fwy o fanylion am y cynnig arbennig yma, holwch eich gwerthwr neu werthwraig lleol pan fydd yn galw â rhifyn Ebrill

CEIR CYMRU GAREJ MINFFORDD, BETHEL

Ffôn: 670451

Mae Garej Minffordd bellach yn rhan o gwmni garej teuluol sydd wedi ei sefydlu ers deugain mlynedd. Yma mae gennym weithdy trwsio, bae MOT, a gweithdy peintio ac atgyweirio cyrff ceir. Rydym yn cynnig y gwasanaeth gorau am y prisiau isaf posibl ac yn barod i roi pris ar unrhyw waith cyn ei ddechrau! Mae car benthyg i'w gael am ddim bob amser!

Yma, ac yn y Gaerwen, Môn, mae gennym y dewis gorau, a'r rhataf posibl, o geir ail-law safonol. Y llynedd gwerthodd ein cwmni dros 1,000 o geir ail-law — record ymysg y goreuon. Llwyddwyd i wneud hynny am elw bychan a thrwy hysbyseb o ganmoliaeth o'r naill i'r llall (nid trwy hysbysebu drud mewn papurau newydd).

Rydym yn llwyddo i fynd o nerth i nerth ac yn eich sicrhau chwi ein cwsmeriaid na fedrwc ein curo am bris na safon.

CEIR CYMRU
CWMNI CYMREIG YN EDRYCH I'R DYFODOL

CHWARAEON

A OES RHINI MAETH I'R BABI NEWYDD?

Daeth newyddion da i bentref Deiniolen yn ddiweddar pan glustnodwyd grant ychwanegol o £100,000 tuag at ddatblygu'r cae pêl-droed newydd. Bydd yr arian ychwanegol yn galluogi'r pwyllgor i adeiladu ystafelloedd newid a maes ymarfer.

Mae'n siŵr bod nifer o gymunedau'r ardal wedi holi sut mae denu cyfleusterau cyffelyb i'w pentrefi hwy? Mae'r sylfeini yn cael eu gosod. Soniwyd eisoes yn y golofn hon am sefydlu Cyngor Chwaraeon Arfon ac ym mro'r Eco mae yna ddau flagur bychan wedi esgor o'r datblygiad yma. Fe sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Dyffryn Peris a Chyngor Chwaraeon Bethel. Beth yw pwrpas sefydlu'r Cynghorau?

Mewn pentref credaf fod yna ddau brif symbyliad — yn gyntaf, ceisio ymateb i'r galw a'r angen am weithgaredd yn enwedig ymysg yr ifanc. Ym Methel mae bwriad i ddefnyddio'r neuadd newydd fel canolbwynt gweithgareddau ac fe all hyn amrywio o fowls, badminton, snwcer, i fan cyfarfod am banded a sgwrs.

Y mae datganoli adnoddau o Gaernarfon a Bangor, mi dybiaf, yn ddatblygiad pwysig ac un elfen ddiddorol o sefydlu'r Cyngor ym Methel oedd gweld cymaint o wahanol gampau y mae'r trigolion yn ymwneud â hwy. Yr hyn sy'n drist yw'r diffyg hyder mewn pêl i ddod a bwrw iddi i'r fenter newydd, a fydd, gobeithio, yn gaffaeliad i'r gymdeithas gyfan. Mae'r oes wedi datblygu yn un o 'pawb drosto'i hun' ac yn anffodus mae'r agwedd honno wedi dinistrio cymdeithas gan ei bod yn llesteirio datblygiad arweinwyr cymdeithasol.

Nid creu siop siarad yw bwriad y Cynghorau hyn ond datblygu a meithrin gweithgaredd. Os ydym yn ddigon bodlon i ddweud 'does dim byd i'w wneud yma,' yna dim byd fydd ynal.

Mae'r Cynghorau hyn yn gyswllt pwysig rhwng pentrefwyr a'r gwahanol asiantaethau — Cyngor Arfon, Cyngor Chwaraeon Cymru, a.y.b. O'r manau hyn y bydd y grantiau yn dod a rhaid fydd i'r pentref a'r ardal ddangos fod ganddynt frwdfrydded ynglŷn â strategaeth a blaenoriaethau er denu'r grantiau hyn. Profiad nifer o gymunedau sydd wedi meithrin datblygiadau o'r fath yw ei bod yn ymarferiad cymdeithasol iach. Mewn pentref fel Bethel, sy'n cynyddu o ran poblogaeth, pa well ffordd i'r boblogaeth gymdeithasu a'i gilydd?

Yr ail symbyliad yw — mewn oes y credir iddi fod ymysg y lleiaf iach, pa well ffordd i ymlacio'r tensiynau na thrwy weithgaredd chwaraeon. Pa gampau yr hoffech chi eu gweld yn

Torrir tir newydd y mis yma gan fod yr enillydd wedi ei enwebu. O Lanberis y daw Alun Vaughan ac yn ystod y misoedd diwethaf fe gafodd cryn lwyddiant mewn amryw o rasus. Nid yw gofod yn caniatáu i ni restu'r llwyddiannau, ond llongyfarchiadau iddo ar ennill y Tlws. Diolch hefyd i'r enwebydd — gobeithio fod hyn yn agor y drws i rai eraill o'r darllenwyr wneud hynny. Caif y Tlws ei gyflwyno i Alun yn ystod yr wythnosau nesaf ac fe fydd llun yn ymddangos yn rhifyn Ebrill o'r Eco.

eich pentref neu yn yr ardal? Beth sydd yma i ferched?

Prif gysylltydd Cyngor Chwaraeon Dyffryn Peris yw Dafydd Arfon Jones o Lanrug. Gwan iawn oedd y gynrychiolaeth yn y cyfarfod agoriadol, ond efallai bod rhai ffactorau yn achosi hynny. Nid oes unrhyw arwyd o roi'r ffidil yn y to gan fod Dafydd yn fodlon i gyfarod ag unrhyw gymdeithas neu glwb i esbonio'r datblygiad.

Yr oedd yna 18 yng nghyfarfod cyntaf Cyngor Chwaraeon Bethel a naw yn yr ail gyfarfod. Serch hynny y mae'r criw bach yn fodlon bwrw ymlaen gan obeithio y daw llawer mwy atynt i greu rhywbeth fydd yn gaffaeliad i'r pentref. Os mai 'tân siafins' sydd yma, yna yr unig beth fydd yn deillio o hynny yw gwanhau ysbryd y criw bach gweithgar. Felly, bentrefwyr ac ardalydd, beth am roi eich cefnogaeth a'ch egni i'r 'ddau fabi newydd' yma fel y gallant dyfu i fyny yn 'iach'.

A YW'R SÊR YN YSBRYDOLI

Yn ryngwladol cymysglyd iawn fu'r mis diwethaf, gan i'r mis ddechrau yn gampus gyda'r fuddugoliaeth wfreiddiol yn erbyn y Saeson ar Barc yr Arfau. Ni chredaf i mi erioed fod mewn gêm gyda chymaint o densiwn. Yn sicr ni welwyd y fath gefnogaeth i dîm cenedlaethol erioed ac nid anghofiaf fyth am un o löwr y Betws (na wyddai beth a fyddai dyfodol y pwll y gweithiai ynddo) a safai gyda'i fab 12 oed wrth fy ochr ar y teras. Yr oedd wedi bod yn ddistaw trwy gydol y gêm hyd nes y daeth y gic gosb dyngedfennol honno yn yr eiliadau olaf a gwaeddodd: 'Gwnewch o dros y glôwyr boisi!' le, ar brydiau mae hi'n fwy na gêm.

Siomedig iawn fu'r perfformiad yn yr Alban ond efallai ein bod wedi wynebu'r tîm gorau yn y bencampwriaeth am eleni. Yr oedd y gêm yn crisialu fy ngweledigaeth o Gymru — buom yn dda am amddiffyn yn aml, gyda'r galon yn rheoli dros y pen. Amharod iawn yw ein hanes pan fo angen ymosod. Tueddu i gymryd a dioddef pob dim yn wasaidd yw ein ffordd. Os daw buddugoliaeth yn erbyn y Gwyddelod — ac fe ddylem wneud hynny — gobeithio ein bod yn teimlo fod y datblygiad yn parhau ond ein bod yn bell o'r wawr newydd.

Y siom fwyaf i mi oedd yr amgylchiadau ynglŷn â gêm pêl-droed Cymru yn Iwerddon. Nid yw'r canlyniad yn bwysig — er fy mod yn gobeithio fod Cymru am ennill ym mhob camp. Teimlaf fod yr achlysur wedi ei ddifrio gan absenoldeb rhai o 'sêr' Cymru — yn enwedig Ryan Giggs ac Ian Rush. Prin iawn fu ymddangosiad y ddau yma mewn gemau 'cyfeillgar' tros Gymru yn ddiweddar. Mae hyn yn sefyllfa wrthun — yn enwedig o gofio na fydd y ddau byth yn colli gemau i'w clybiau. Sut y gall Cymru baratoi ar gyfer y gemau pwysig gyda'r fath ddiffyg ymroddiad. Rwy'n siwr pe buasai'r gêm gartref fe fyddai'r ddau wedi chwarae oherwydd yr awydd i ddenu torf a chwyddo'r coffrau. Y mae y fath sefyllfa yn sarhad i'r cefnogwyr. Rhaid cofio fod gwylio pêl-droed ar y lefel uchaf yn gostus i ni heddiw. Un o'r prif resymau am hyn yw'r cyfalaf sydd ei angen i dalu cyflogau uchel i Giggs, Rush a'u bath. Baint yw cynrychioli eich gwlad ac mae'r ieuenctid yn edrych i fyny i'r 'sêr' yma. Mae ardal yn ymfalchio yn eu llwyddiant, fel gyda Wyn Davies a Malcolm Allen. Sut y gallaf i weiddi ar blentyn sydd ddim yn troi i fyny i dîm plant ar fore Sadwrn tra mae'r un peth yn digwydd i'r sêr?

Mae teyrngarwch yn derm hen ffasiwn ond y mae yn un o brif elfennau unrhyw chwaraewr. Hebdo ni aiff yn bell iawn.

HAELIONI FFILMAU'R NANT



Emyr Davies, prif sylwebydd 'Sgorio', yn cyflwyno set o grysau newydd i John Williams ac aelodau tîm dan 16 Llanrug.

AR GARLAM!

Dros y blynyddoedd datblygodd Ysgol Brynrefail draddodiad athletaidd gwych. Daeth ambell i 'vest' ryngwladol yno. Oddi ar y trac cafwyd cryn lwyddiant yn rasus traws-gwlad. Ydyd chi'r cyn-ddisgyblion yn cofio powndio'r stryd o gae'r Ysgol, trwy Crawia, draw am Benisarwaun, i lawr i Bonrhythallt, i fyny Ffordd yr Orsaf ac yna sprint (?) i lawr i'r Ysgol?

Bydd dau o ddisgyblion yr Ysgol yn cynrychioli Ysgolion Gwynedd ym Mhencampwriaeth Cymru yn y Drenewydd ar Fawrth 6ed. Y ddau yw Alun Vaughan (Llanberis) a Martin Parry (Cwm-y-glo). Ym mhencampwriaeth Gwynedd yn eu hoedran daeth Alun yn ail a Martin yn seithfed. Pwy a wŷr efallai bod cyfle am lwyddiant yn y canolbarth? Bydd yr enillwyr yno yn cael eu dewis i gynrychioli Cymru. Fe fuasai'n braf cael gweld y safon a osodwyd mor wych gan Colin Jones yn cael ei gynnal.



Uchod fe welir tîm 'answyddogol' Bethel a gymrodd ran yn Marathon Menai a gynhaliwyd yn ddiweddar ar dir Ysgol David Hughes. I'r oedran yma 2.8 milltir oedd y pellter. Mae'n

amlwg fod Rebecca, Susan, Carl, Gwynfor, David, Irfon, a'r ddau Iwan, wedi mwynhau eu hunain. Yn amlwg mae'r medalau wedi plesio!